Fersiwn 2: Mawrth 2024

Ysbyty Glan Clwyd

Rhaglenni Blynyddoedd Sylfaen Un a Dau



Gweithio ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr

Y Bwrdd Iechyd hwn yw'r sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru, yn darparu ystod lawn o wasanaethau sylfaenol, cymunedol, iechyd meddwl a gofal acíwt ar gyfer poblogaeth o tua 676,000 o bobl ar draws chwe sir Gogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinby ch, Sir y Fflint a Wrecsam) yn ogystal â rhai rhannau o ganolbarth Cymru, Swydd Gaer a Swydd Amwythig.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi tua 16,500 o staff ac yn ysgwyddo cyllideb o tua £1.2biliwn. Mae'n gyfrifol am weithrediad tri ysbyty cyffredinol (Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ger y Rhyl ac Ysbyty Maelor Wrecsam) yn ogystal â 22 o ysbytai acíwt a chymunedol eraill . At hynny, mae'n gyfrifol am rwydwaith o dros 90 o ganolfannau iechyd, clinigau, canolfannau timau iechyd cymunedol ac unedau iechyd meddwl. Mae hefyd yn cyd-drefnu gwaith 107 o bractisau meddygon teulu a gwasanaethau GIG a ddarperir gan ddeintyddion, optegwyr a fferyllfeydd yng Ngogledd Cymru.

Ysbyty Glan Clwyd

Mae Ysbyty Glan Clwyd wedi'i leoli mewn ardal o harddwch naturiol cydnabyddedig ger ysgwydd Eryri, gyda thraethau godidog a chestyll cyfareddol wrth law. Mae'r ardal leol yn cynnig amrywiaeth eang o opsiynau o ran ffordd o fyw a bywyd teuluol. Hefyd, i'r rhai sy'n awyddus i gynnal rhwymau ehangach, mae gan yr ardal gysylltiadau trafnidiaeth rhagorol gan gynnwys trenau cyflym uniongyrchol i Lundain. M ae dinasoedd Caer, Manceinion a Lerpwl hefyd o fewn cyrraedd. Yn ychwanegol, mae gan yr ysbyty a'r bwrdd iechyd gysylltiadau aca demaidd rhagorol â Phrifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr, yn ogystal â chysylltiadau agos ag ysgolion meddygol yng Nghaerdydd, Abertaw e, Lerpwl a Manceinion. Ceir rhaglen hynod weithredol o ran Addysg Feddygol a Deintyddol ar lefelau Israddedig ac Ôl -raddedig. Mae'r ysbyty'n gweithio'n agos gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru i ddarparu addysg a hyfforddiant o'r radd orau, gan fodloni gofynion y cyrff rheoleid dio hyn a chynnal safonau uchel y Bwrdd Iechyd o ran gofal cleifion. Mae cyfleoedd gwych i ymgeiswyr add as hyrwyddo datblygiad pellach addysg a hyfforddiant.

Mae buddsoddiad gwerth sawl miliwn o bunnau ar waith er budd datblygu'r holl adrannau, gan gynnwys y wardiau, y theatrau a'r mannau cleifion allanol. Rhydd hyn ragolwg ac amgylchedd newydd, ffres i feddygon sy'n ymroi i weithio yn yr ysbyty. Mae ychwanegia dau diweddar hefyd yn cynnwys y Cwadrant Argyfwng a Chanolfan Gardiaidd Gogledd Cymru.

Mae'r ysbyty'n cynnig amrywiaeth o feysydd arbenigol i ddatblygu'ch gyrfa, a hithau hefyd yn gartref i Ganolfan Ganser Gogled d Cymru. Yn ddiweddar, cyflwynodd Raglen cymrodoriaeth glinigol er budd gweithio ym maes PHEMS. Roedd yn cynnwys treulio amser yma yn yr adran Gofal Critigol yn ogystal â gweithio gydag EMRTS ar Ambiwlans Awyr Cymru yng Nghaernarfon.

Canolfan ôl-raddedig

Mae'r Adran Ôl-raddedig yn gweithredu trwy gyfrwng y Ganolfan Addysg sydd wedi'i lleoli o flaen Ysbyty Glan Clwyd. Mae'n ymdrechu i ddarparu pwynt cyfeirio canolog a chymorth i'r holl feddygon iau drwy ystod eu gyrfâu. Mae holl aelodau'r adran yn cyfrannu mewn amrywiol ffyrdd ac yn anelu at ddarparu canolfan uwchraddedig addysgiadol a bugeiliol gyflawn.

Cysylltiadau'r ganolfan ôl-raddedig:

Dr Eve Blakemore – Cyfarwyddwr y Rhaglen Sylfaen: Eve.Blakemore1@wales.nhs.uk

Mrs Deryn Evans, Rheolwr Addysg Feddygol: deryn.evans@wales.nhs.uk

Mr Steve Holman, Swyddog Lles Meddygon: stephen.holman@wales.nhs.uk

Mrs Elaine Hughes, Cydlynydd Sylfaen/Ôl-raddedig: elaine.hughes2@wales.nhs.uk

Mr Adam McKenna, Cydlynydd Intrepid/Ôl-raddedig: adam.mckenna@wales.nhs.uk

Cymeradwyaeth gan Dr Eve Blakemore (Cyfarwyddwr y Rhaglen Hyfforddiant)

Mae'r rhaglen sylfaen yn Ysbyty Glan Clwyd yn cynnig amrywiaeth eang o addysg a phrofiad i raddedigion o'r DU a thu hwnt sydd am osod sylfeini ymarfer meddygol o fewn amgylchedd dysgu strwythuredig a diogel. Mae ein cylchdroeon yn cynnig meddygaeth a llawfeddygaeth gyffredinol ac is-arbenigedd mewn ysbyty cyffredinol yn ogystal â chyfleoedd ym maes gofal sylfaenol, meddygaeth frys a meysydd arbenigol fel dermatoleg, seiciatreg, pediatreg a mwy. Mae gennym swyddi academaidd cymeradwy iawn a thîm ôl-raddedig cyfeillgar a phrofiadol sy'n cynnig gofal a chymorth bugeiliol rhagorol. Mae ein hyfforddeion a'n hyfforddwyr yn cael eu gwerthfawrogi, eu datblygu a'u cynorthwyo. Rydym yn cynnig rhaglen addysgu strwythuredig, warchodedig sydd wedi'i mapio a'i theilwra yn ôl y Cwricwlwm Sylfaen. Rydym yn rhagweithiol ddarparu cymorth portffolio ac yn cynnig cyngor ac arweiniad ar sail myfyrio di ogel ac effeithiol, meithrin diddordeb mewn addysgu/rheoli yn ogystal â gwneud cais am eich swydd nesaf.

Yn YGC, rydym yn deall bod yn rhaid i wasanaeth clinigol gael ei gydbwyso â hyfforddiant effeithiol ac rydym wir yn rhoi ystyriaeth ddwys i'n cyfrifoldeb dros ddatblygu meddygon rhagorol. Mae'n tîm yn meddu ar ddealltwriaeth ragorol o safonau a disgwyliadau o ran hyfforddiant yn ogystal â'r defnydd o adborth ffurfiol ac anffurfiol i wella ansawdd gwasanaeth ac amgylcheddau hyfforddi. Bydd llwyfan i'ch llais yma!

e-bost: Elaine.hughes2@wales.nhs.uk Ffôn: 01745 448788 estyniad 2788

Ysgol Glinigol Gogledd Cymru

Mae Ysgol Glinigol Gogledd Cymru (NWCS) yn darparu cyfleusterau addysgol o ansawdd uchel ar gyfer Myfyrwyr Meddygol ar leoliad yng Ngogledd Cymru. Mae'r NWCS wedi tyfu o ran ei statws a'i chapasiti dros y degawd diwethaf ac mae'n croesawu tua 250 o fyfyrwyr meddygol y flwyddyn i Ysbyty Glan Clwyd.

Llecyn Llymaid y Meddygon

Mae ystafell fwyta gyfforddus â stoc dda wedi'i lleoli ar lawr gwaelod Ysbyty Glan Clwyd. Mae'n gyfleuster poblogaidd fel llecyn i fynd i ymlacio a chael byrbryd neu ddiod.

Lletyau Ysbyty Glan Clwyd

- Mae ein holl letyau ar y safle ac o fewn ychydig funudau ar droed o'r prif ysbyty.
- Darperir lletyau Sengl/Teulu, ond nodwch mai lletyau cyfyngedig sydd ar gael i barau/cyplau.
- O ran ein lletyau sengl, rydym yn darparu ystafelloedd gwely â'n dodrefn ein hunain mewn fflat sy'n cartrefu uchafswm o dri pherson. Mae'r deiliaid o fewn y fflat yn rhannu'r cyfleusterau (ceginau/ystafelloedd ymolchi). Sylwch nad oes gennym gyfleusterau *en suite*. Darperir gwasanaeth domestig yn ystod yr wythnos ond nid ar benwythnosau nac ar Wyliau Banc. Mae'r lletyau ar gyfer parau/cyplau yn gwbl hunangynhwysol. Mae golchdy o fewn y cyfadeilad preswyl hefyd gyda digon o beiriannau golchi hunan-gyflenwi a sychwyr.
- Mae cyfleuster parcio ar gael y tu allan i'r adeiladau llety.
- Cysylltwch â Jenny Burns – Rhif Ffôn 01745 583910 Estyniad 7342 neu drwy e-bost: Jenny.Burns@wales.nhs.uk

Geirda – Dr Jamie Lau

Rydw i wir wedi mwynhau'r profiad o weithio yn YGC. Yng nghwmni cydweithwyr cyfeillgar mewn amgylchedd gwaith cefnogol, mae rhywun wastad wrth law i gynnig cymorth. Mae yna wastad stôr o gyfleoedd dysgu, i ehangu'ch set sgiliau, y mae uwch-swyddogion yn fwy na pharod i'w goruchwylio a'u traddodi. Mae modd ichi ymroi'n helaeth i gyfleoedd addysgu ac ymchwil. Uchafbwynt personol i mi oedd ymwneud â Rhwydwaith SEREN, prosiect wedi'i gynllunio i helpu myf yrwyr chweched dosbarth â'u ceisiadau ar gyfer ysgolion meddygol.

Mae harddwch Eryri ar garreg eich drws yng Ngogledd Cymru ac eto mae modd teithio i ddinasoedd Lerpwl, Manceinion a Chaer mewn dim o dro. Mae hyn yn sicrhau bod rhywbeth i'ch difyrru o hyd yn eich amser hamdden.

Yn gyffredinol, mae gweithio yn YGC wedi rhoi profiad bythgofiadwy i mi ac wedi f'arfogi â sgiliau di-ail fel sylfaen i'm gyrfa feddygol.

Geirda – Dr Abbey Rogers

Mae gweithio yn YGC yn cynnig cyfle unigryw i ddod yn rhan o gymuned Ysbyty Cyffredinol glòs. Mae'r ardal wledig nid yn unig yn rhoi'r cyfle ichi fforio'r awyr agored, ond hefyd yn peri ichi ddod i gysylltiad â phoblogaeth amrywiol o gleifion.

Mae gan Ogledd Cymru lawer iawn i'w gynnig. O'r traethau godidog i gopaon Eryri, mae trysorau gerllaw. Gallech fwynhau barbeciw a choelcerth ar y traeth neu daith gerdded i gopa Tryfan. Fodd bynnag, os yw bywyd y ddinas yn eich denu, mae Caer ar garreg eich drws a Lerpwl heb fod ymhell. Hefyd, oes...mae modd cael pryd *Domino's* wedi'i ddanfon i'r ysbyty! Y peth allweddol sy'n rhoi i YGC ei hunaniaeth unigryw yw'r adran ôl-raddedig. Yn achos llawer ohonom, mae'r arweiniad a'r cymorth parhaus a gawn gan y teulu ôl-raddedig yn meithrin gwir gyfeillgarwch. Rydw i wedi cael sbardun diguro i'm gyrfa yn yr ysbyty hwn ac mae'r ffordd o fyw sydd wedi dod yn sgil y swydd wedi rhoi blwyddyn gron o atgofion melys i mi.

Darganfod Gogledd Cymru

Mae Ysbyty Glan Clwyd wedi'i leoli yng nghanol cefn gwlad Gogledd Cymru ar yr arfordir. Mae modd ei gyrchu'n rhwydd drwy gyfrwng y prif reilffordd neu'r priffyrdd o gyfeiriad Glannau Merswy, Manceinion Fwyaf a Chanolbarth Lloegr, ynghyd â fferi o Ddulyn i borthladd Caergybi.

Mae ffordd gyflym A55 Gogledd Cymru yn pontio'r prif safleoedd ysbyty ac yn darparu modd o ymuno â'r rhwydwaith traffyrdd cenedlaethol.

Gellir cyrraedd dinas hanesyddol Caer o fewn 30 munud ac nid yw dinasoedd Manceinion a Lerpwl ond awr i ffwrdd. Mae'r ddwy ddinas hon yn meddu ar feysydd awyr rhyngwladol. Mae gorsaf reilffordd y Rhyl ar y brif linell rhwng Llundain a Chaergybi,

go north wales
www.gonorthwales.co.uk

Go North Wales - Safle Swyddogol Gwybodaeth i Ymwelwyr

Mynyddoedd a Llynnoedd

Gogledd Cymru yw Prifddinas Adrenalin y DU

Velocity

Canolfan Gweithgareddau Awyr Agored a Pharc Antur | Zip World

ZIP WORLD

Velocity **yw'r wifrlinell gyflymaf yn y byd. Ehedwch dros Chwarel Penrhyn ar gyflymder o 100 mya a throsodd wrth fwynhau golygfeydd dihafal o Eryri**

Traethau Trawiadol

Cestyll Hanesyddol

Ymwelwch â Dinas Hardd Caer

Ymweld â Chaer | Lleoedd i Ymweld â hwy yng Nghaer | Chester.com

Mae Caer yn lletya'r muriau mwyaf cyflawn, y cae ras hynaf a'r Amffitheatr Rufeinig fwyaf ym Mhrydain, ynghyd ag Eglwys Gadeiriol 1000 mlwydd oed sydd â cherfiadau canoloesol ceinaf Ewrop. Hefyd, wrth gwrs ceir yr orielau Rhesog unigryw, 700 mlwydd oed lle mae'r profiad o siopa'n nefoedd ar y ddaear.

Fe welwch chi stôr o siopau yng Nghaer sy'n cynnig y ffasiwn diweddaraf, gyda chefnlen o drysorau hynafol unigryw a diwylliant bywiog o fwytai lle mae ciniawa'n yr awyr agored a gwylio pobl yn ymlwybro'n rhan annatod o'r profiad.

O Ysbyty Glan Clwyd

Maes Awyr Rhyngwladol Manceinion – 60 milltir

Maes Awyr Lerpwl – 51 milltir

Caer – 32 milltir

Trenau uniongyrchol o'r Rhyl i Lundain – 2 awr 45 munud

Cylchdroeon – Prif Restr

Mae tair swydd wag i bob Rhaglen a fydd yn ymroi i'r lleoliadau rhestredig, y naill a'r llall mewn trefn wahanol.

Rhaglen	Blwyddyn Sylfaen 1 Lleoliad 1	Blwyddyn Sylfaen 1 Lleoliad 2	Blwyddyn Sylfaen 1 Lleoliad 3	Blwyddyn Sylfaen 2 Lleoliad 4	Blwyddyn Sylfaen 2 Lleoliad 5	Blwyddyn Sylfaen 2 Lleoliad 6
FP/025	Meddygaeth Arennol	Llawfeddygaeth Gyffredinol / Gastroberfeddol Uchaf	Meddygaeth Geriatrig	Llawfeddygaeth Gyffredinol	Llawfeddygaeth Drawma ac Orthopedig	Meddygaeth Frys
FP/026	Meddygaeth Frys	Meddygaeth Anadlol	Llawfeddygaeth y Fron	Pediatreg	Ymarfer Cyffredinol	Meddygaeth Geriatrig
FP/027	Endocrinoleg a Diabetes Melitws	Llawfeddygaeth Gyffredinol	Llawfeddygaeth Fasgwlaidd	Gastroenteroleg	Ymarfer Cyffredinol	Meddygaeth Geriatrig (Strôc)
FP/028	Meddygaeth Anadlol	Llawfeddygaeth Gyffredinol	Meddygaeth Geriatrig	Ymarfer Cyffredinol	Llawfeddygaeth Gyffredinol (Otolaryngoleg)	Seiciatreg Gyffredinol
FP/029	Cardioleg	Llawfeddygaeth Gyffredinol	Pediatreg / Meddygaeth Newydd-enedigol	Meddygaeth Anadlol	Meddygaeth Frys	Meddygaeth Fewnol Acíwt
F2 - SFP-Arall FP/030	Gastroenteroleg	Llawfeddygaeth Gyffredinol (Y Colon a'r Rhefr)	Pediatreg / Meddygaeth Newydd-enedigol	Meddygaeth Gofal Dwys	Meddygaeth Anadlol	Ymarfer Cyffredinol
F2 – SFP - EDU FP/031	Meddygaeth Fewnol Acíwt	Llawfeddygaeth Gyffredinol (Fasgwlaidd)	Anestheteg	Pediatreg Gymunedol	Seiciatreg Gyffredinol	Obstetreg a Gynaecoleg
F1 (LIFT) FP24/122	Gastroenteroleg	Llawfeddygaeth y Geg, y Genau a'r Wyneb	Meddygaeth Frys	Meddygaeth Geriatrig	Llawfeddygaeth Gyffredinol (Y Colon a'r Rhefr)	Llawfeddygaeth Drawma ac Orthopedig
F1 (LIFT) FP/129	Meddygaeth Anadlol	Llawfeddygaeth Gyffredinol	Meddygaeth Geriatrig	Meddygaeth Geriatrig (Strôc)	Dermatoleg	Pediatreg

Rhaglen F1 LIFT – bydd hyfforddeion yn treulio un diwrnod yr wythnos ym maes Ymarfer Cyffredinol drwy ystod eu blwyddyn Sylfaen gyntaf.

Manylion Lleoliadau

Gwybodaeth Bwysig

Esiamplau'n unig i hysbysu ymgeiswyr yw'r lleoliadau a'r swydd-ddisgrifiadau a ddarperir.

Nid ydynt yn rhan o gontract cyflogaeth ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cadw'r hawl

i addasu unrhyw leoliad yn unol â'r gofynion.

Gall rhaglenni newid ar fyr rybudd.

Oherwydd newidiadau posibl, gellir cadarnhau bandiau rota ar gais.

Gweler gwefan Ysgol Sefydledig Cymru am

gadarnhad o unrhyw newidiadau i'n Rhaglenni.

Lleoliadau F1 ac F2

Arbenigedd	Meddygaeth Geriatrig
Rhaglenni:	FP/25

Disgrifiad o'r lleoliad

Bydd yr FY1, ynghyd ag aelodau eraill o'r tîm, yn helpu i ddarparu gofal meddygol i gleifion (a nifer amrywiol o allgleifion dan ofal ymgynghorwyr y tîm). Byddant hefyd yn cymryd rhan yn y rota 'ar alwad' yn ystod y dydd (derbyniadau meddygol annethol), gan helpu i gofnodi cleifion a atgyfeiriwyd a chymryd rhan mewn rowndiau ward ymgynghorol.

*Mae cyfoeth o brofiadau clinigol ar gael a fyddai'n helpu i ddatblygu'r sgiliau generig canlynol:

- Nodi hanes meddygol, cynnal archwiliadau clinigol a llunio cynlluniau rheoli
- Adolygu canlyniadau ymchwiliadau a gweithredu arnynt (gan gynnwys atgyfeirio'n briodol)
- Cyfathrebu â chleifion (ac eraill arwyddocaol), aelodau eraill o'r tîm amlddisgyblaethol a chydweithwyr sy'n ymwneud â disgyblaethau eraill
- Rhagnodi diogel

*Profiadau arbenigedd-benodol ym maes meddygaeth Geriatrig:

Asesu cleifion hŷn a dderbynnir yn sgil cwympiadau, dryswch, strôc

Asesiadau geriatrig cynhwysfawr (a rôl asesiad amlddisgyblaethol)

Cynllunio i ryddhau cleifion

Profion gogwydd-fwrdd *(tilt table)* wrth asesu cwympiadau a syncop

*Cyfleoedd addysgol

~ Modd o gyrchu rhaglen addysgol gadarn

~ Cyfleoedd i gymryd rhan mewn archwiliadau

Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F1 wythnosol – dyddiau Iau, 2 – 3pm Cynhadledd glinigol wythnosol – dyddiau Mercher, 1 – 2pm

	Rownd Wythnosol y Meddygon – dyddiau Gwener, 11:30-12:30 Cyfarfod Rheolaeth Feddygol Misol – ail ddydd Mawrth y mis am 13:00 Addysgu COTE wythnosol ar ddyddiau Llun am 12:00
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Adhiyaman/Dr Chatterjee

Arbenigedd	**Llawfeddygaeth Gyffredinol/Gastroberfeddol Uchaf**
Rhaglenni:	FP/25
Disgrifiad o'r lleoliad Y math o waith i'w ragddisgwyl a chyfleoedd dysgu Gofalu am gleifion mewnol llawfeddygol, dan oruchwyliaeth SHO, cofrestryddion ac ymgynghorwyr. Asesu cleifion sy'n ymgyflwyno fel achosion brys a chyfrannu at eu dadebriad. Mae toreth o gyfleoedd dysgu yn sgil ystod enfawr o gyflwyniadau clinigol a'r batholeg sydd wrth eu gwraidd. Mae cyfleoedd hefyd i feithrin sgiliau clinigol, sgiliau llawdrin a sgiliau anghlinigol fel addysgu, archwilio a chynnal ymchwil. Prif ddyletswyddau'r lleoliad. Rowndiau ward fel aelod o dîm clinigol; gwaith clinigol ar wardiau, gan gynnwys cynnal gweithdrefnau; llunio crynodebau rhyddhau a chyfathrebu â meddygon teulu; cyfathrebu â grwpiau proffesiynol eraill; addysgu myfyrwyr meddygol; cynnal prosiectau archwilio.	
Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F1 wythnosol, dyddiau Iau, 1:00 – 2:00 Cynhadledd Glinigol Wythnosol, dyddiau Mercher, 1:00 – 2:00 Addysgu Llawfeddygol Wythnosol, dyddiau Gwener, 8:00 – 9:00
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Mr R Morgan

Arbenigedd	Meddygaeth Arennol
Rhaglenni:	FP/25
Disgrifiad o'r Lleoliad Mae'r adran arennol yn cynnwys tri ymgynghorydd sy'n ysgwyddo tair rôl unigol 'ar alwad' ym maes meddygaeth arennol a chyffredinol. Mae'r holl feddygon ymgynghorol yn gwasanaethu'r uned Hemodialysis ac yn gofalu am gleifion dialysis peritoneol a thrawsblaniadau arennol. Mae'r tîm arennol yn cynnwys tri Ymgynghorydd, Meddyg Arbenigol, un SpR, un IMT, FY1 a Chydymaith Meddygol. Fe'u cynorthwyir gan nyrsys arbenigol ym maes clefyd arennol cronig, anemia arennol, trawsblannu, dialysis peritoneol, yn ogystal â seicolegydd ymgynghorol penodedig, fferyllydd arennol, deietegydd arennol a gweithiwr cymdeithasol Arennol. Cynhelir y gwaith ward ar ward 9, a rennir gyda'r tîm endocrin, sy'n lletya 16 o gleifion mewnol ar y tro ar gyfartaledd. Bydd baich gwaith amrywiol o ran cleifion mewnol, yn cynnwys problemau meddygol cyffredinol a dderbynnir drwy uned feddygol A+E/Acíwt, cleifion a dderbynnir â chlefydau arennol neu anafiadau acíwt i'r arennau, cleifion dialysis a dderbynnir yn uniongyrchol o'r uned neu dderbynwyr trawsblaniad sy'n wael. Mae cleifion hefyd yn cael eu derbyn ar gyfer biopsïau arennol neu ar gyfer triniaethau radiolegol.	
Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F1 wythnosol – dyddiau Iau, 2 – 3pm Cynhadledd glinigol wythnosol – dyddiau Mercher, 1 – 2pm Rownd Wythnosol y Meddygon – dyddiau Gwener, 11:30-12:30 Cyfarfod Rheolaeth Feddygol Misol – ail ddydd Mawrth y mis am 13:00
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr S Shrikanth

Arbenigedd	Meddygaeth Frys
Rhaglenni:	FP/26
Disgrifiad o'r lleoliad Mae'r adran wedi'i staffio â chymysgedd o Ymgynghorwyr, Meddygon SAS (rota graddfa ganol ar waith 24/7) a meddygon iau. Yn ogystal, mae tîm nyrsio cadarn sy'n cynnwys ENP, ffisiotherapyddion cwmpas estynedig a thîm esblygol o Uwch-ymarferwyr Nyrsio. Mae'r adran yn rhan o adeilad Cwadrant Argyfwng newydd, a gwblhawyd ychydig dros bum mlynedd yn ôl, ac sydd wedi'i diogelu at y dyfodol i ddelio â 70,000 o fynychwyr blynyddol. Mae'r Cwadrant Argyfwng yn cynnwys uned feddygol acíwt, uned asesu lawfeddygol ac uned Ymarferwyr Cyffredinol y Tu Allan i Oriau. Y llynedd bu inni wella'n model gofal trwy ddatblygu uned Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod (SDEC) ar gyfer achosion triniaeth ddydd, sydd bellach â chymorth meddyg acíwt llawn amser. Yr uned feddygol a llawfeddygol gyfun hon oedd y gyntaf o'i bath yng Nghymru. Denodd sylw cenedlaethol o ganlyniad i'r ffordd arloesol y bu inni ymgyfuno'r timau hyn a datblygu llwybrau newydd yn deillio o'r Adran Achosion Brys. Rydym yn bwriadu ategu ein gwasanaeth drwy ychwanegu uned eiddilwch a man derbyn Ymarfer Cyffredinol.	
Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F1 wythnosol, dyddiau Iau, 1:00 – 2:00 Cynhadledd Glinigol Wythnosol, dyddiau Mercher, 1:00 – 2:00 Addysgu EM wythnosol
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Tom O'Driscoll a Dr Paul Spambo

Arbenigedd	Llawfeddygaeth y Fron
Rhaglenni:	FP/26
Disgrifiad o'r lleoliad Bydd y meddyg yn darparu gofal ar gyfer cleifion y Fron ac Oncoplastig. Bydd yn rhan o'r rota lawfeddygol gyffredinol ar alwad yn gofalu am gleifion llawfeddygaeth gyffredinol â gwaeleddau acíwt a chronig. Bydd yn cael y cyfle i fynychu clinigau cleifion allanol, sesiynau Theatr a rowndiau ward. Yn ogystal â hynny bydd yn cael y cyfle i feithrin sgiliau llawfeddygol sylfaenol ac i gymryd rhan mewn gwaith archwilio ac ymchwil.	
Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F1 wythnosol, dyddiau Iau, 1:00 – 2:00 Cynhadledd Glinigol Wythnosol, dyddiau Mercher, 1:00 – 2:00

	Addysgu Llawfeddygol Wythnosol, dyddiau Gwener, 8:00 – 9:00
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Mr. Walid Abou Samra (Goruchwyliwr Addysgol) Yr Athro Mandana Pennick (Goruchwyliwr Clinigol)

Arbenigedd	**Endocrinoleg a Diabetes Melitws**
Rhaglenni:	FP/27
Disgrifiad o'r Lleoliad Gwaith ward a rheolaeth gyffredinol gyda chleifion meddygol. Gofal arferol i gleifion ar ward diabetes ac endocrinoleg. Ymdrin â chleifion ar OHA / inswlinau a GLP-1. Ymdrin â Hypoglycemia, Hyperglycemia, DKA, wlserau traed diabetig, cysylltu â DSN, timau fasgwlaidd ac Orthopedig. Ymdrin â chleifion meddygol cyffredinol. Hebrwng yr ymgynghorwyr ar alwad ar y rowndiau ward ôl-dderbyn, cyflawni'r tasgau a ddaw i'r amlwg yn sgil y rowndiau ward ôl-dderbyn (sy'n cynnwys archebu sganiau, anfon atgyfeiriadau at arbenigeddau eraill, ychwanegu profion gwaed, canwlâu, samplau gwaed a meithriniadau gwaed), cofnodi cleifion newydd eu derbyn ac ymdrin â hwy'n unol â hynny. Os yn dirprwyo ar ward, yna sicrhau bod yr holl dasgau trosglwyddo'n cael eu cyflawni (ymofyn profion gwaed, rhagnodi hylifau/warffarin, canwlâu, tynnu gwaed) ac adolygu cleifion gwael. Cymryd rhan yn rota ar alwad FY1. Addysgu myfyrwyr meddygol.	
Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F1 wythnosol – dyddiau Iau, 1 – 2pm Cynhadledd glinigol wythnosol – dyddiau Mercher, 1 – 2pm Rownd Wythnosol y Meddygon – dyddiau Gwener, 11:30-12:30 Cyfarfod Rheolaeth Feddygol Misol – ail ddydd Mawrth y mis am 13:00

	Addysgu ar Ward
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Aye Nyunt

Arbenigedd	Llawfeddygaeth Gyffredinol
Rhaglenni:	FP/27
Disgrifiad o'r Lleoliad Y math o waith i'w ragddisgwyl a chyfleoedd dysgu Gofalu am gleifion mewnol llawfeddygol, dan oruchwyliaeth SHO, cofrestryddion ac ymgynghorwyr. Asesu cleifion sy'n ymgyflwyno fel achosion brys a chyfrannu at eu dadebriad. Mae toreth o gyfleoedd dysgu yn sgil ystod enfawr o gyflwyniadau clinigol a'r batholeg sydd wrth eu gwraidd. Mae cyfleoedd hefyd i feithrin sgiliau clinigol, sgiliau llawdrin, a sgiliau anghlinigol fel addysgu, archwilio a chynnal ymchwil. Prif ddyletswyddau'r lleoliad Rowndiau ward fel aelod o dîm clinigol; gwaith clinigol ar wardiau, gan gynnwys cynnal gweithdrefnau; llunio crynodebau rhyddhau a chyfathrebu â meddygon teulu; cyfathrebu â grwpiau proffesiynol eraill; addysgu myfyrwyr meddygol; cynnal prosiectau archwilio.	
Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F1 wythnosol, dyddiau Iau, 1:00 – 2:00 Cynhadledd Glinigol Wythnosol, dyddiau Mercher, 1:00 – 2:00 Addysgu Llawfeddygol Wythnosol, dyddiau Gwener, 8:00 – 9:00
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Mr M Haider

Arbenigedd	Meddygaeth Geriatrig
Rhaglenni:	FP/28

Disgrifiad o'r Lleoliad

Bydd yr FY1, ynghyd ag aelodau eraill o'r tîm, yn helpu i ddarparu gofal meddygol i gleifion (a nifer amrywiol o allgleifion dan ofal ymgynghorwyr y tîm). Byddant hefyd yn cymryd rhan yn y rota 'ar alwad' yn ystod y dydd (derbyniadau meddygol annethol), gan helpu i gofnodi cleifion a atgyfeiriwyd a chymryd rhan mewn rowndiau ward ymgynghorol.

*Mae cyfoeth o brofiadau clinigol ar gael a fyddai'n helpu i ddatblygu'r sgiliau generig canlynol:

- Nodi hanes meddygol, cynnal archwiliadau clinigol a llunio cynlluniau rheoli
- Adolygu canlyniadau ymchwiliadau a gweithredu arnynt (gan gynnwys atgyfeirio'n briodol)
- Cyfathrebu â chleifion (ac eraill arwyddocaol), aelodau eraill o'r tîm amlddisgyblaethol a chydweithwyr sy'n ymwneud â disgyblaethau eraill
- Rhagnodi diogel

*Profiadau arbenigedd-benodol ym maes meddygaeth Geriatrig:

Asesu cleifion hŷn a dderbynnir yn sgil cwympiadau, dryswch, strôc

Asesiadau geriatrig cynhwysfawr (a rôl asesiad amlddisgyblaethol)

Cynllunio i ryddhau cleifion

Profion gogwydd-fwrdd *(tilt table)* wrth asesu cwympiadau a syncop

*Cyfleoedd addysgol

~ Modd o gyrchu rhaglen addysgol gadarn

~ Cyfleoedd i gymryd rhan mewn archwiliadau

Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F1 wythnosol – dyddiau Iau, 1 – 2pm Cynhadledd glinigol wythnosol – dyddiau Mercher, 1 – 2pm Rownd Wythnosol y Meddygon – dyddiau Gwener, 11:30-12:30 Cyfarfod Rheolaeth Feddygol Misol – ail ddydd Mawrth y mis am 13:00

	Addysgu COTE wythnosol ar ddyddiau Llun am 12:00
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Owen/Dr Chakrabarti

Arbenigedd	**Llawfeddygaeth Gyffredinol**
Rhaglenni:	FP/28 ac LFP129

Disgrifiad o'r Lleoliad

Rowndiau ward boreol gydag Ymgynghorydd a Chofrestrydd
Canwleiddio, profion gwaed, trefnu ymchwiliadau, diweddaru'r rhestr.
Nodi hanes meddygol ac archwilio cleifion.
Rhagnodi hylifau a meddyginiaethau'n ddiogel.
Ysgrifennu ar gofnodion meddygol yn gywir gyda chynlluniau rheoli.
Cyfathrebu â chleifion, teuluoedd cleifion a chydweithwyr.
Dysgu sut i flaenoriaethu a bod yn drefnus.
Addysgu cleifion yn effeithiol ac addysgu myfyrwyr meddygol.
Clercio cyn-llawdriniaethol.
Rheoli cymhlethdodau ôl-llawdriniaethol gyda chymorth a chynhaliaeth uwch.
Cadw cofnodion cyfredol.
Gwaith tîm gyda nyrsys, deietegwyr ac eraill.
Ymofyn ymchwiliadau.
Ymdrin â chleifion ward o ddydd i ddydd.
Cyfathrebu a dirprwyo.
Mynychu clinigau theatr a chleifion allanol.

Ymgymryd â phrosiectau archwilio dan oruchwyliaeth yr ymgynghorydd.	
Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F1 wythnosol, dyddiau Iau, 1:00 – 2:00 Cynhadledd Glinigol Wythnosol, dyddiau Mercher, 1:00 – 2:00 Addysgu Llawfeddygol Wythnosol, dyddiau Gwener, 8:00 – 9:00
Goruchwyliwr Addysgol a Chlinigol:	Mr M Al-Rawi

Arbenigedd	**Meddygaeth Anadlol**
Rhaglenni:	FP/28, FP/26 ac LFP/129
Disgrifiad o'r Lleoliad *Anadlol (Ward 6)* - Rownd Bwrdd MDT am 8:45 bob bore - Dau gofrestrydd arbenigol, un CMT/LAT SHO, dau FY2, un F2 academaidd a dau feddyg FY1. - Mae'r ymgynghorwyr yn gwasanaethu'r ward yn ôl patrwm cylchdro am gyfnod o fis yr un. - Mae'r tîm yn cael ei gynorthwyo gan nyrs ward cymorth anadlu anfewnwthiol (NIV), ymarferydd Rhoi'r Gorau i Ysmygu a Chydymaith Meddygol. - Ni fydd eich enw ar y rota gan gydlynydd y rota feddygol gan mai aelod uwchrifol fyddwch chi'n dechnegol. Ni fydd gennych unrhyw ymrwymiadau ar alwad ond gallwch ddewis gweithio sifftiau locwm. - Sesiwn/cyfarfod addysgu anadlol amser cinio ddydd Llun (ewch hyd yn oed os nad ydych ar y ward ar y diwrnod hwnnw)	
Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F1 wythnosol – dyddiau Iau, 1 – 2pm

	Cynhadledd Glinigol Wythnosol – dyddiau Mercher, 1 – 2pm Rownd Wythnosol y Meddygon – dyddiau Gwener, 11:30-12:30 Cyfarfod Rheolaeth Feddygol Misol – ail ddydd Mawrth y mis am 13:00 Addysgu Anadlol wythnosol – dyddiau Llun – 12.30 – 1.30
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Robyn Poyner

Arbenigedd	**Cardioleg**
Rhaglenni:	FP/29

Disgrifiad o'r Lleoliad

Bydd y meddyg yn darparu gofal dyddiol i gleifion a dderbynnir i ward 4 (Cardioleg a Meddygaeth Fewnol Gyffredinol). Ceir amlygiad da i amrywiaeth o achosion cardioleg ac achosion meddygol cyffredinol. Goruchwylir hwy gan ymgynghorydd hynod brofiadol a staff nyrsio, gyda chymorth hyfforddeion meddygol a chofrestryddion arbenigol.
Mae'r lleoliad hefyd yn cynnwys dyletswydd ar alwad rhwng 09:00 a 21:00 mewn Uned Feddygol Acíwt ble deuir i gysylltiad ag amryw o gleifion meddygol acíwt.

Cyfarfodydd Addysgol:	• Addysgu F1 wythnosol, dyddiau Iau, 1:00 – 2:00 • Cynhadledd Glinigol Wythnosol, dyddiau Mercher 1:00 – 2:00 • Cyfarfod addysgol Adrannol wythnosol, dyddiau Mercher 15:30 – 17:30
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Wisam Khider (Arweinydd Addysgol) cardiolegydd ymgynghorol YGC

Arbenigedd	Llawfeddygaeth Gyffredinol
Rhaglenni:	FP/29
Disgrifiad o'r Lleoliad Y math o waith i'w ragddisgwyl a chyfleoedd dysgu Gofalu am gleifion mewnol llawfeddygol, dan oruchwyliaeth SHO, cofrestryddion ac ymgynghorwyr. Asesu cleifion sy'n ymgyflwyno fel achosion brys a chyfrannu at eu dadebriad. Mae toreth o gyfleoedd dysgu yn sgil ystod enfawr o gyflwyniadau clinigol a'r bath oleg sydd wrth eu gwraidd. Mae cyfleoedd hefyd i feithrin sgiliau clinigol, sgiliau llawdrin a sgiliau anghlinigol fel addysgu, archwilio a chynnal ymchwil. Prif ddyletswyddau'r lleoliad Rowndiau ward fel aelod o dîm clinigol; gwaith clinigol ar wardiau, gan gynnwys cynnal gweithdrefnau; llunio crynodebau rhydd hau a chyfathrebu â meddygon teulu; cyfathrebu â grwpiau proffesiynol eraill; addysgu myfyrwyr meddygol; cynnal prosiectau archwili o. Cynorthwyo mewn theatrau a mynychu clinigau'n achlysurol i ennill profiad. Dyletswyddau ar alwad yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau, yn unol â'r rota.	
Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F1 wythnosol, dyddiau Iau, 1:00 – 2:00 Cynhadledd Glinigol Wythnosol, dyddiau Mercher, 1:00 – 2:00 Addysgu Llawfeddygol Wythnosol, dyddiau Gwener, 8:00 – 9:00
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Mr. C Chatzidimitriou

Arbenigedd	Pediatreg/Meddygaeth Newydd-enedigol
Rhaglenni:	FP/29
Disgrifiad o'r Lleoliad Cyflogir FY1 fel staff uwchrifol ym maes Pediatreg Gyffredinol ond fe'u hystyrir yn rhan bwysig o'r tîm. Byddant yn ymuno â r ota 1:5 (Dydd Sadwrn a Sul yn unig) heb ddyletswyddau ar alwad gyda'r nos. Byddant hefyd yn ysgwyddo sifft ddydd hir (ochr yn ochr â'r SHO ar alwad) unwaith yr wythnos.	

Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F1 wythnosol, dyddiau Iau, 1:00 – 2:00 Cynhadledd Glinigol Wythnosol, dyddiau Mercher, 1:00 – 2:00 Addysgu dyddiol ar ôl trosglwyddiad / yn ystod rowndiau ward
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Aradhana Ingley
Arbenigedd	**Gastroenteroleg**
Rhaglenni:	FP/30 ac LFP122

Disgrifiad o'r lleoliad

Swydd ar ward yw hon gydag ymrwymiadau ar alwad. Mae cyfleusterau a chyfleoedd addysgol rhagorol gyda chyfarfodydd meddygol cyffredinol rheolaidd (tri chyfarfod yr wythnos). Mae'r swydd yn darparu cyfleoedd dysgu sylfaenol ym maes meddygaeth gyffredinol, gan gynnwys amlygiad i amrywiaeth eang o gyflyrau meddygol ar alwad. Mae'n hyrwyddo'r cyfle i nodi hanes meddygol a chynnal archwiliadau, datblygu cynlluniau ymchwilio a rheoli, yn ogystal â chynnig amlygiad rhagorol i gyflawni gweithdrefnau ymarferol. Mae'r adnoddau diweddaraf ar gael. Mae adran addysg yr arbenigedd yn cynnig cyfarfod addysg gastroenteroleg wythnosol y bydd deiliad y swydd yn cyfrannu ato. Cânt arddangos sgiliau caffael gwybodaeth a chyflwyno yn ogystal â deall pwysigrwydd llywodraethu clinigol, gan arfer prosesau llywodraethu rheolaidd a chynnal archwiliadau ar sail achosion aelodau o'r tîm. Dyma swydd brysur a fydd yn cymell yr hyfforddai i ddatblygu sgiliau cadarn o ran rheoli amser, gweithio mewn tîm a chyfathrebu. Bydd cefnlen o ddysg ar sail anhwylderau hepatofustlaidd a gastroberfeddol lwminaidd a chyfleoedd i ddatblygu cymhwysedd i gynnal paracentesis abdomenol.

Dyletswyddau ward yn bennaf, gan weithio'n agos gyda staff ar y ward. Trawsgyflenwi a sicrhau bod gwyliau blynyddol yn cael ei drefnu'n amserol gan roi rhybudd priodol a sicrhau cyflenwad staff priodol. Ymrwymiad ar alwad i ymwneud â'r derbyniadau meddygol annethol. Sicrhau bod y crynodebau rhyddhau electronig wedi'u cwblhau. Mynychu cyfarfodydd addysgol a chyfrannu atynt.

Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F1 wythnosol – dyddiau Iau, 1:00 – 2:00 Cynhadledd Glinigol Wythnosol – dyddiau Mercher, 1:00 – 2:00 Rownd Wythnosol y Meddygon – dyddiau Gwener, 11:30-12:30

	Cyfarfod Rheolaeth Feddygol Misol – ail ddydd Mawrth y mis am 13:00

Arbenigedd	**Pediatreg/Meddygaeth Newydd-enedigol**
Rhaglenni:	FP/30
Disgrifiad o'r Lleoliad Asesu ac ymdrin â phlant â gwaeleddau acíwt sy'n ymgyflwyno i'r ward plant / CAU, gan gynnwys rhoi cynllun rheoli ar waith. Mynychu sesiynau clinig, gan gynnwys is-arbenigeddau. Mynychu sesiynau addysgu adrannol / ysbytyol a sesiynau addysgu sylfaenol yn rheolaidd. Treulio amser yn yr uned newydd-enedigol, gan gynnwys cynnal gwiriadau babanod. Yn ystod y cyfnod ar leoliad, bydd disgwyl i'r meddyg sylfaen ymroi i'r canlynol: Datblygu sgiliau dynodi a thrin plant gwael. Cânt eu harddangos yn sgil annibyniaeth gynyddol o ran cyflwyno rheolaeth gynnar briodol. Gellir eu harddangos ymhellach trwy gwblhau Digwyddiadau Dysgu dan Oruchwyliaeth, yn benodol *Mini-CEX* a CBD. Helaethu sgiliau ymarferol sydd eisoes wedi'u sefydlu, gan ddysgu sut i gymhwyso'r sgiliau hyn wrth ymdrin â phlant a phobl i fanc. Bydd sgiliau ymarferol penodol yn cynnwys: Gofal y llwybr anadlu gan gynnwys ategion syml, meithriniad gwaed (perifferol), pibelliad canwla mewnwythiennol, trwythiad mewnwythiennol gan gynnwys rhagnodi hylifau, cynnal a dehongli ECG, cynnal a dehongli prawf llif anadl, cathetreiddio wrethrol (gwryw), Gwythïen-bigo. Bydd hyn yn cael ei arddangos drwy gyfrwng DOPS. Meithrin dealltwriaeth o gyflyrau heintus cyffredin fel bronciolitis, URTI, LRTI, gastroenteritis a sepsis. Arddangos, drwy gyfrwng adroddiadau myfyriol, y cynnydd a wneir o ran trin y cyflyrau hyn ac arfer y grefft â chleifion i'r dyfodol. Mynychu rowndiau ward, ymorol am dderbyniadau / asesiadau ar sail atgyfeiriadau acíwt, adolygu cleifion sy'n ymweld â'r ward, mynychu clinigau fel arsylwr, tynnu gwaed yn ystod sesiynau fflebotomi boreol, adolygu canlyniadau a gweithredu camau dilynol, trosglwyddo'n effeithiol.	
Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F1 wythnosol, dyddiau Iau, 1:00 – 2:00 Cynhadledd Glinigol Wythnosol, dyddiau Mercher, 1:00 – 2:00 Addysgu dyddiol ar ôl trosglwyddiad / yn ystod rowndiau ward
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Matthew Sandman

Arbenigedd	Llawfeddygaeth Gyffredinol / Llawfeddygaeth y Colon a'r Rhefr
Rhaglenni:	FP/30

Disgrifiad o'r Lleoliad

Llawfeddygaeth y colon a'r rhefr a llawfeddygaeth gyffredinol
Mae'r swydd hon yn cynnig amlygiad i ystod lawn o lawdriniaethau cyffredinol, boed wedi'u cynllunio neu'n rhai brys. Ceir cyfleoedd helaeth hefyd i fynychu theatrau. Mae llawfeddygaeth y colon a'r rhefr a llawfeddygaeth gyffredinol dan ofal Mr Maw a llawfeddygaeth gyffredinol frys dan ofal ymgynghorwyr eraill yn yr adran. Derbynnir pob achos brys llawfeddygol cyffredin yn gyson i'r adran. Mae rhywfaint o waith trawsgyflenwi mewn ymateb i achosion brys llawfeddygaeth fasgwlaidd pan yn gwasanaethu ar alwad.
Prif ddyletswyddau'r lleoliad
Darparu gofal ar ward yn ddyddiol i gleifion Mr Maw a chleifion ymgynghorwyr eraill. Crynodebau rhyddhau. Paratoi cleifion ar gyfer y theatr.
Cofnodi a threfnu cleifion llawfeddygol brys.
Wythnos waith arferol
Llun: Rowndiau ward a Theatr drwy'r dydd, bob yn ail wythnos

Mawrth: Rowndiau ward a Theatr drwy'r dydd, yn wythnosol

Mercher: Rownd ward / dyletswyddau gweinyddol

Iau: Clinig boreol / Rhestr colonosgopi sgrinio'r coluddyn yn y pnawn

Gwener: Addysgu boreol / rowndiau ward / rhestr golonosgopi
dyletswyddau gweinyddol yn y pnawn

Cwmpasu rowndiau ward, trawsgyflenwi er budd cleifion ymgynghorwyr eraill a gwasanaethu ar alwad yn unol â'r rota ddyletswyddau wythnosol

Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F1 wythnosol, dyddiau Iau, 1:00 – 2:00

	Cynhadledd Glinigol Wythnosol, dyddiau Mercher, 1:00 – 2:00 Addysgu Llawfeddygol Wythnosol, dyddiau Gwener, 8:00 – 9:00
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Mr Andrew Maw

Arbenigedd	**Anestheteg**
Rhaglenni:	FP/31

Disgrifiad o'r lleoliad

1. Mewn theatrau: cyfleoedd i ymarfer sgiliau'r llwybr anadlu fel cymorth anadlu Bag a Mwgwd, symudiadau'r llwybr anadlu, gosod ategion y llwybr anadlu, LMA, ETT, tiwbiau NG, mynediad mewnwythiennol perifferol (canwlâu, llinellau canol, llinellau PICC), llinellau rhydwelïol a llinellau canolog. Cyfle i ddefnyddio'r laryngosgop safonol neu'r laryngosgop fideo. Cyfle i arsylwi ar dechnegau datblygedig parthed y llwybr anadlu fel mewndiwbio ffeibr optig effro neu ynghwsg a defnyddio uwchsain ar gyfer gwahanol dechnegau. Cyfle i ymgyfarwyddo â'r broses amlawdriniaethol o ymdrin â chleifion sy'n wynebu llawdriniaeth a gynlluniwyd neu lawdriniaeth frys. Mae hyn yn cynnwys asesu ac optimeiddio cyn llawdriniaeth, rheolaeth yn ystod llawdriniaeth, rheoli poen ar ôl llawdriniaeth, ymdrin â phwys/cyfog, cyfogi a chymhlethdodau uniongyrchol eraill.
2. Uned Therapi Dwys: cyfnod trosglwyddo dyddiol, adolygu cleifion yr Uned yn ddyddiol gan gynnwys derbyniadau newydd gyda chymorth uwch-aelodau a thîm amlddisgyblaethol. Cyfle i arfer sgiliau fel gosod tiwb NG, Cathetr Gwythiennol Canolog dan arweiniad uwchsain, gosod a thynnu llinell PICC, gosod llinell rydwelïol, sgiliau llwybr anadlu wrth ymdrin â chleifion gwael. Arsylwi ar driniaethau traceostomi, broncosgopi a chynorthwyo i drosglwyddo cleifion ITU ar gyfer delweddu.
3. Gwaith tîm, gwella ansawdd, addysgu, rhagnodi meddyginiaeth, mynychu argyfyngau meddygol.

Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F1 wythnosol – dyddiau Iau, 1:00 – 2:00 Cynhadledd Glinigol Wythnosol – dyddiau Mercher, 1:00 – 2:00pm

Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Claudia Variu

Arbenigedd	**Llawfeddygaeth Fasgwlaidd**
Rhaglenni:	FP/27 & FP/31
Disgrifiad o'r lleoliad Bydd y meddyg yn darparu gofal ar gyfer cleifion mewnol fasgwlaidd yn YGC yn ogystal â'r ward fasgwlaidd. YGC yw canolfan fasgwlaidd Gogledd Cymru a bydd y meddyg yn cael ei amlygu i amrywiaeth eang o batholegau meddygol acíwt a llawfeddygol fasgwlaidd. Mae yna rownd ward ymgynghorol dyddiol ynghyd â thîm o feddygon fasgwlaidd graddfa ganol ac iau gan gynnwys cofrestrydd / cymrawd ac SHO. Bydd y meddyg yn ymgymryd â dyletswyddau ar alwad ar ran y tîm llawfeddygaeth gyffredinol yn unol â'r rota llawfeddygaeth gyffredinol.	
Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F1 wythnosol, dyddiau Iau, 1:00 – 2:00 Cynhadledd Glinigol Wythnosol, dyddiau Mercher, 1:00 – 2:00 Addysgu Llawfeddygol Wythnosol, dyddiau Gwener, 8:00 – 9:00 Addysgu Fasgwlaidd wythnosol
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Mr Hassan Jararah & Mr Mohamed Elshikhawoda Ymgynghorwyr fasgwlaidd ar alwad CS

Arbenigedd	Uned Feddygol Acíwt
Rhaglenni:	FP/31

Disgrifiad o'r lleoliad

Mae'r Adran Meddygaeth Acíwt yn cynnwys pedwar Meddyg Ymgynghorol y mae dau ohonynt yn ymroi i feddygaeth acíwt a diabetes/endocrinoleg ac un yn ymroi i feddygaeth acíwt a meddygaeth arennol. Mae arbenigwr cyswllt sy'n gofalu am gleifion dan adolygiad dri diwrnod yr wythnos. Mae adran triniaethau dydd, gwasanaeth DVT a gwasanaeth ADTT yn gysylltiedig â'r uned. Mae'r adran yn gwasanaethu Canolbarth Gogledd Cymru gyda phoblogaeth ddalgylch o 250,000.

Mae F1 ac F2 yn ymroi i wasanaeth yr uned. Byddant yn ymwneud â gwaith clercio cyffredinol ar ran cleifion sy'n cael eu derbyn yn ogystal â gofal parhaus y cleifion hynny sy'n yr uned hyd nes iddynt gael eu trosglwyddo i'r wardiau meddygol eraill.

Amcanion addysgol cyffredinol y flwyddyn F1/F2 yw arfogi hyfforddeion â'r wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau i allu arfer y canlynol:

- Nodi hanes meddygol ac archwilio cleifion.
- Dynodi a chyfosod problemau.
- Rhagnodi'n ddiogel.
- Cadw cofnod meddygol cywir a pherthnasol.
- Rheoli amser a blaenoriaethau clinigol yn effeithiol.
- Cyfathrebu'n effeithiol gyda chleifion, perthnasau a chydweithwyr.
- Defnyddio tystiolaeth, canllawiau ac archwiliadau er budd gofal cleifion.
- Gweithredu mewn modd proffesiynol bob amser.
- Ymdopi â materion moesegol a chyfreithiol sy'n codi wrth ymdrin â chleifion â phroblemau meddygol cyffredinol.
- Addysgu cleifion yn effeithiol.

Datblygu'n ddysgwyr ac yn addysgwyr gydol oes.

Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F1 wythnosol – dyddiau Iau – 1:00 – 2:00 Cynhadledd Glinigol Wythnosol – dyddiau Mercher 1:00 – 2:00 Rownd Wythnosol y Meddygon – dyddiau Gwener, 11:30-12:30

Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr G Sreemantula

Arbenigedd	**Otolaryngoleg / Llawfeddygaeth y Geg, y Genau a'r Wyneb**
Rhaglenni:	**LFP/122**

Disgrifiad o'r lleoliad

Bydd yn cwmpasu diwrnod yr wythnos (bydd y feddygfa'n cysylltu â chi i bennu'ch diwrnod gwaith yno. Cysylltwch â hwy os na chlywch ganddynt).

Bydd y trefniant hwn fel arfer yn dod i rym ychydig wythnosau wedi ichi ddechrau FY1. Os yn cyflawni'ch diwrnod LIFT yng Nghanolfan Feddygol Clarence, cewch y cyfle i weld cleifion y rhestr argyfwng a'u trafod gyda'r ymarferydd cyffredinol sydd ar ddyletswydd. Byddwch yn cael eich dysgu sut i ddefnyddio'r systemau a bydd modd ichi ymofyn cyngor helaeth gan yr ymarferwyr cyffredinol a'r cofrestryddion yno.

Llawfeddygaeth ENT / y Genau a'r Wyneb

Mae'r cylchdro hwn fel arfer yn dechrau ym maes ENT, am gyfnod o ddeufis, gyda chyfnod dilynol o ddeufis ym maes Llawfeddygaeth y Genau a'r Wyneb. Cysylltwch â Tracy, y cydlynydd llawfeddygol, i nodi dyddiadau'r cyfnewidiad.

ENT:

- Helpu'r SHO ar alwad yn bennaf.
- Mae'r tîm iau fel arfer yn eich cynnwys chi (FY1), FY2, 1-2 SHO.
- Sicrhewch eich bod ar WARD 5 ar gyfer y trosglwyddiad am 8am cyn rownd ward y cofrestryddion.
- Bydd rownd ward fel arfer yn cynnwys ymweld â chleifion ar y ward yn ogystal ag unrhyw gleifion ENT ar y ward bediatrig / yn yr adran achosion brys.
- Tasgau nodweddiadol yn sgil rownd ward – profion gwaed, canwlâu, atgyfeiriadau.
- Mae clinig SHO ENT hefyd – rhai galwadau ffôn a rhai apwyntiadau wyneb yn wyneb ar gyfer adolygu / microsugno ac ati – ffordd dda o gyflawni CBD/CEX.
- Cynhelir POAC pediatrig (clinig asesu cynllawdriniaethol) bob dydd Gwener – cyfrifoldeb FY2 yw hwn fel arfer, ond efallai y bydd angen i chi gynorthwyo neu ddirprwyo ar eu rhan.
- Siaradwch â'r cofrestryddion / ymgynghorwyr os ydych yn awyddus i dreulio amser yn y theatr.
- ORIAU GWEITHIO: Dydd Llun – Dydd Gwener 8am-4pm (ac eithrio Diwrnod LIFT Ymarfer Cyffredinol)

Llawfeddygaeth y Genau a'r Wyneb:

• Gweithio gyda DCT (hyfforddeion deintyddol craidd – hyfforddedig yn ddeintyddol yn unig fel arfer), swyddogion graddfa staff (hyfforddedig yn ddeintyddol yn unig fel arfer), cofrestryddion / ymgynghorwyr (hyfforddedig yn ddeintyddol ac yn feddygol)

• Rhoddir rota i chi gan y tîm (rhowch wybod iddynt pa bryd mae'ch diwrnod LIFT)

• Byddwn yn eich cynghori i newid i sgrybiau theatr gwyrdd yn y bore – maent i'w canfod yn ystafelloedd newid y theatr ar y llawr gwaelod.

• Byddwch yn treulio amser yn helpu'r DCT ar alwad, yn cynorthwyo yn y theatr / MOPS (mân lawdriniaethau) neu mewn clinigau.

• Helpu'r DCT ar alwad:

o Mynychu adran cleifion allanol y Genau a'r Wyneb am 8am ar gyfer y trosglwyddiad.

o Diwrnod arferol - rownd ward AM + tasgau (gwaed, canwlâu, llythyrau rhyddhau), helpu â blipiau / adolygu cleifion, helpu yn achos unrhyw argyfwng yn y theatr.

• Cynorthwyo yn y theatr:

o Mynychu DOSA cyn 8am a sicrhau bod gan y cleifion ffurflenni sticeri cydsynio, agor unrhyw OPG diweddar (orthopantomogram – pelydr X deintyddol), sicrhau bod y siart cyffuriau wedi'i lenwi a'r TED wedi'u rhagnodi.

• Cynorthwyo gyda MOPS

o Yng ngŵydd swyddogion graddfa staff fel arfer, gan ddechrau am 9am fel rheol.

o Byddant yn eich dysgu sut i bwytho'n iawn – buddiol er mwyn cyflawni DOPS.

• Clinig

o Fel arfer yn dechrau am 9am

o Dan arweiniad ymgynghorydd – byddant yn rhoi cleifion i chi eu gweld a'u trafod.

Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F1 wythnosol – dyddiau Iau – 1:00 – 2:00 Cynhadledd Glinigol Wythnosol – dyddiau Mercher 1:00 – 2:00 Rownd Wythnosol y Meddygon – dyddiau Gwener, 11:30-12:30 Cyfarfod Rheolaeth Feddygol Misol – ail ddydd Mawrth y mis am 13:00

Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Mr Richard Anthony a Miss Emma Woolley

Arbenigedd	**Meddygaeth Fewnol Gyffredinol / Meddygaeth Geriatrig**
Rhaglenni:	**LFP/129 ac FP/028**

Disgrifiad o'r lleoliad

Ward 2

Ward Gofal yr Henoed, 24 gwely, ble câi'r hyfforddai brofiad eang o ymdrin â chleifion oedrannus â phroblemau meddygol acíwt a chronig. Byddai cyfleoedd i drafod diagnosis, rheolaeth a phrognosis gyda theuluoedd, meithrin profiad ym maes ffarmaco-therapiwteg, rhagnodi a dadragnodi, cymryd rhan mewn gwaith cynllunio cymhleth o ran rhyddhau cleifion ac ymwneud â thrafodaethau diwedd oes a senarios moesegol eraill.

Byddai'r hyfforddai'n meithrin profiad o weithio gyda'r tîm amlddisgyblaethol (MDT).

Byddent hefyd yn ysgwyddo dyletswyddau ar alwad o ran meddygaeth acíwt.

Mae dau ymgynghorydd yn bresennol a chynorthwyir y tîm gan gofrestrydd, hyfforddai meddygaeth fewnol, hyfforddai GPVTS a hyfforddai FY1.

Mae'r ddau ymgynghorydd yn cynnal rowndiau ward rheolaidd ac mae ymgynghorydd yn bresennol bob bore ar ddiwrnodau gwaith. Byddai'r hyfforddai'n cymryd rhan mewn rowndiau ward annibynnol a than arweiniad meddygon ymgynghorol.

Byddent hefyd yn cael cyfleoedd i addysgu myfyrwyr meddygol y bedwaredd a'r bumed flwyddyn. Bydd cyfranogiad ym maes gwella ansawdd, archwilio a phrosiectau eraill yn cael ei daer annog.

Darperir cyfleoedd addysgu rhagorol ym maes COTE a bydd cyfleoedd i gyflwyno yn y gwahanol fforymau addysgol.

Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F1 wythnosol – dyddiau Mercher, 2 – 3pm Cynhadledd glinigol wythnosol – dyddiau Mercher, 1 – 2pm Rownd Wythnosol y Meddygon – dyddiau Gwener, 11:30-12:30

	Cyfarfod Rheolaeth Feddygol Misol – ail ddydd Mawrth y mis am 13:00 Addysgu COTE wythnosol ar ddyddiau Llun am 12:00
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr S Chakrabarti (goruchwyliwr addysgol) Dr G Owen (goruchwyliwr clinigol)

Cylchdroeon Blwyddyn Sylfaen 2

Arbenigedd	**Pediatreg**
Rhaglenni:	**FP/26 ac LFP/129**

Disgrifiad o'r lleoliad

Bydd meddygon FY2 yn cymryd rhan yn y rota Haen 1, sifft Lawn 1:10, a'r rota Pediatreg Gyffredinol.

Asesu ac ymdrin â phlant â gwaeleddau acíwt sy'n ymgyflwyno i'r ward plant / CAU, gan gynnwys rhoi cynllun rheoli ar waith. Mynychu sesiynau clinig, gan gynnwys is-arbenigeddau. Mynychu sesiynau addysgu adrannol / ysbytyol a sesiynau addysgu sylfaenol yn rheolaidd. Treulio amser yn yr uned newydd-enedigol, gan gynnwys cynnal gwiriadau babanod.

Yn ystod y cyfnod ar leoliad, bydd disgwyl i'r meddyg sylfaen ymroi i'r canlynol:

i) Datblygu sgiliau dynodi a thrin plant gwael. Cânt eu harddangos yn sgil annibyniaeth gynyddol o ran cyflwyno rheolaeth gynnar briodol. Gellir eu harddangos ymhellach trwy gwblhau Digwyddiadau Dysgu dan Oruchwyliaeth, yn benodol *Mini-CEX* a CBD.

ii) Helaethu sgiliau ymarferol sydd eisoes wedi'u sefydlu, gan ddysgu sut i gymhwyso'r sgiliau hyn wrth ymdrin â phlant a phobl i fanc. Bydd sgiliau ymarferol penodol yn cynnwys: Gofal y llwybr anadlu gan gynnwys ategion syml, meithriniad gwaed (perifferol), pi belliad canwla mewnwythiennol, trwythiad mewnwythiennol gan gynnwys rhagnodi hylifau, cynnal a dehongli ECG, cynnal a dehongli prawf llif an adl, cathetreiddio wrethrol (gwryw), Gwythïen-bigo. Bydd hyn yn cael ei arddangos drwy gyfrwng DOPS.

iii) Meithrin dealltwriaeth o gyflyrau heintus cyffredin fel bronciolitis, URTI, LRTI, gastroenteritis a sepsis. Arddangos, drwy g yfrwng adroddiadau myfyriol, y cynnydd a wneir o ran trin y cyflyrau hyn ac arfer y grefft â chleifion i'r dyfodol.

Prif ddyletswyddau'r lleoliad

Mynychu rowndiau ward, ymorol am dderbyniadau / asesiadau ar sail atgyfeiriadau acíwt, adolygu cleifion sy'n ymweld â'r ward, mynychu clinigau fel arsylwr, tynnu gwaed yn ystod sesiynau fflebotomi boreol, adolygu canlyniadau a gweithredu camau dilynol, trosglwyddo'n effeithiol.

Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F2 wythnosol, dyddiau Mercher, 2 – 3pm Cynhadledd Glinigol Wythnosol, dyddiau Mercher, 1 – 2pm Addysgu dyddiol ar ôl trosglwyddiad / yn ystod rowndiau ward
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Ingley a Dr M Sandman (Addysgol a Chlinigol) Ymgynghorwyr yr wythnos – goruchwylwyr clinigol

Arbenigedd	**Meddygaeth Fewnol Gyffredinol / Meddygaeth Geriatrig**
Rhaglenni:	**FP/26**

Disgrifiad o'r lleoliad

Bydd yr Hyfforddai'n gweithio ar ward 14, sef y ward Strôc. Bydd yn cynnal ei rowndiau ward dyddiol ei hun yn ogystal â mynychu rownd ward ymgynghorol o leiaf ddwywaith yr wythnos. Bydd disgwyl iddo gyflawni'r holl waith ward gofynnol er budd ei gleifion a bydd gofyn iddo siarad â theuluoedd ar brydiau. Gall hefyd ymgymryd â'r galwadau Thrombolysis Strôc sy'n codi rhwng 9 a 5 a bydd ar adegau'n ymorol am dderbyniadau Strôc uniongyrchol i ward 14 ac yn cofnodi manylion y cleifion.

Bydd disgwyl i'r hyfforddai fynychu'r holl sesiynau addysgu isod yn ogystal ag ymroi i gyflwyno yn y Prif Rowndiau Meddygol a'r sesiynau addysgu COTE ar ddyddiau Llun. Mae cyfarfodydd amlddisgyblaethol wythnosol yn cael eu cynnal ar ward 14, y gall yr hyff orddai eu mynychu, ac mae cyfarfod Llywodraethu Strôc misol y caiff hefyd ei annog i fod yn bresennol ynddo.

Bydd yn gweithio'n unol â'r rota feddygol ar alwad gan gynnwys ar benwythnosau a nosweithiau. Bydd hyn yn cynnwys derbyniadau meddygol, ymdrin â phob derbyniad meddygol acíwt a mynychu rowndiau ward a throsglwyddiadau ôl-dderbyn. Yn ogystal, bydd yr hyfforddai'n darparu

gwasanaeth meddygol ar gyfer y wardiau y tu allan i oriau. Wrth ymgymryd â dyletswyddau ar alwad bydd hefyd yn mynychu galwadau ataliad y galon. Pan fo ar alwad bydd cymorth Cofrestrydd wrth law bob amser. Bydd yn cynorthwyo dau ymgynghorydd ar ward 14 sydd ill dau yn ysgwyddo dyletswyddau Meddygol ar alwad yn ogystal â'u gwaith ym maes Strôc. Mae hyn yn golygu y bydd allgleifion meddygol cyffredinol a COTE ar brydiau y bydd angen i'r hyfforddai ofalu amdanynt ar wardiau eraill (gyda chymorth ymgynghorol uniongyrchol). Mae gan y ddau feddyg ymgynghorol welyau cymunedol hefyd ac, os yw'r hyfforddai yn dymuno, gall dreulio peth amser gyda'r meddygon ymgynghorol wrth iddynt fynychu eu hysbytai cymunedol.	
Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F2 wythnosol – dyddiau Mercher, 2 – 3pm Cynhadledd glinigol wythnosol – dyddiau Mercher, 1 – 2pm Rownd Wythnosol y Meddygon – dyddiau Gwener, 11:30-12:30 Cyfarfod Rheolaeth Feddygol Misol – ail ddydd Mawrth y mis am 13:00 Addysgu COTE wythnosol ar ddyddiau Llun am 12:00
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Gordon Black

Arbenigedd	**Ymarfer Cyffredinol**
Rhaglenni:	**FP/26**

Disgrifiad o'r Lleoliad:

Canolfan Feddygol Clarence, Y Rhyl - www.clarencemedicalrhyl.co.uk

Practis hyfforddi mawr ydy'r Ganolfan mewn tref glan môr yng Ngogledd Cymru, sy'n gwasanaethu tua 17,000 o gleifion o blith demograffeg eang. Mae gan y practis hanes y gellir ei olrhain i 1850. Rydym wedi'n lleoli ar ddau safle. Mae'r prif safle yng nghanol y dref yn agos at Orllewin y Rhyl, sy'n cynnwys yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae ail gangen y practis (Tŷ Elan) yn ardal dawelach y Dwyrain, sy'n gwasanaethu mwy o bobl hŷn â chyflyrau meddygol cymhleth. Rydym yn gofalu am tua 15 o gartrefi nyrsio a phreswyl yn ogystal â llawer o bobl hŷn sy'n byw ar eu pennau eu hunain ag ychydig iawn o gymorth. Rydym hefyd yn cynnig gwasanaeth ymgynghori ar-lein (PATCHS) https://patchs.ai/practice/clarencemedicalrhyl/.

Cynhelir prosiectau ymchwil yn rheolaidd yng Nghanolfan Feddygol Clarence. Mae'r diolch am hyn yn ddyledus i'r tîm ymchwil sy'n cynllunio'r prosiectau, y meddygon teulu, nyrsys, cynorthwywyr gofal iechyd ac, yn bennaf oll, y cleifion sy'n cymryd rhan yn y treialon. Rydym yn annog ac yn cynorthwyo unrhyw un sy'n awyddus i fod yn rhan o'n prosiectau ymchwil. Maent yn ein galluogi i ganfod triniaethau newydd ac effeithiol ar gyfer amryw o gyflyrau meddygol gwahanol.

Yn aml, cynhelir cyfarfodydd addysgol amser cinio trwy gydol yr wythnos yn ogystal â phrynhawn hyfforddiant misol. Caiff y sesiynau addysgol a'r hyfforddiant eu cofnodi ar yr ap *Timetree* Mewngofnod *TimeTree* (timetreeapp.com). Mae hyn yn caniatáu i bawb weld a oes unrhyw beth yn yr arfaeth er mwyn mynychu.

Y broses gynefino – Bydd yr hyfforddeion, ar gyrraedd, yn cael eu cyfarch gan eu goruchwyliwr cyn cael eu tywys o amgylch y Practis. Byddant yna'n cael eu cyflwyno i aelodau staff, yn cyfarwyddo â'r allanfeydd tân, y cyflenwad ocsigen brys a'r diffibriliwr. Yn ogystal, anfonir pecyn cynefino digidol i'w sylw sy'n cynnwys stôr o wybodaeth (gwybodaeth gyswllt uniongyrchol staff, cyfeiriadau, codau *Read*, manylion parcio, gwybodaeth am sefydliadau lleol a mwy).

Llunnir rota a'i hanfon at yr hyfforddeion bythefnos wedi iddynt gyrraedd. Bydd cyfleoedd i gydeistedd ag amrywiol aelodau o'r tîm clinigol yn cynnwys cymysgedd o ymarferwyr cyffredinol ac uwch-ymarferwyr nyrsio. Rhydd hyn gyfle i'r hyfforddeion gwmpasu meysydd fel Asthma / COPD, Diabetes, Gofal Nyrsio, Imiwneiddiadau plentyndod, Mân lawdriniaethau a rowndiau ward Cartrefi Preswyl. Os oes maes y dymunant ymroi iddo nad yw wedi'i gynnwys, byddwn yn ei ychwanegu lle bo modd. Unwaith y bydd sesiynau clinigol yr hyfforddeion yn mynd rhagddynt, bydd y templedi'n cael eu haddasu i hwyluso'r Ymarfer. Clustnodir meddyg teulu i'r hyfforddeion yn ddyddiol i sicrhau eu bod yn cael cymorth llawn drwy ystod eu lleoliad. Mae ymchwil yn rhan greiddiol o'n Practis yng Ngogledd Cymru felly bu inni gynnwys hyn yn rhan o'r lleoliad – caiff hyfforddeion gynhaliaeth lawn gan Feddyg Teulu, uwch-ymarferydd nyrsio a gweddill y tîm ymchwil.

Os trefnir unrhyw sesiynau hyfforddiant grŵp ar gyfer y Practis, bydd cynnig iddynt fynychu.

Darperir tiwtorialau wythnosol gyda meddyg teulu ac mae tiwtorialau grŵp hefyd wedi'u cyflwyno (cynhelir tiwtorialau ar wahân os ffefrir hynny).

Prif ddyletswyddau:

Sesiynau clinigol i weld cleifion mewn Practis Cyffredinol – gyda meddyg teulu wedi'i glustnodi i ddarparu goruchwyliaeth a chymorth ar gyfer pob sesiwn. Ymweliadau cartref yn ôl yr angen.

Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F2 wythnosol, dyddiau Mercher, 2 - 3pm Cynhadledd Glinigol Wythnosol – dyddiau Mercher, 1 – 2pm Addysgu un i un
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Eve Blakemore, Dr Simon Dobson, Dr Martika Mann, Dr Selena Harris a Dr Ben Lane

Arbenigedd	Meddygaeth Frys
Rhaglenni:	**FP/25 ac FP/029**
Disgrifiad o'r lleoliad Mae'r adran wedi'i staffio â chymysgedd o Ymgynghorwyr, Meddygon SAS (rota graddfa ganol ar waith 24/7) a meddygon iau. Yn ogystal, mae tîm nyrsio cadarn sy'n cynnwys ENP, ffisiotherapyddion cwmpas estynedig a thîm esblygol o Uwch-ymarferwyr Nyrsio. Mae'r adran yn rhan o adeilad Cwadrant Argyfwng newydd, a gwblhawyd ychydig dros bum mlynedd yn ôl, ac sydd wedi'i diogelu at y dyfodol i ddelio â 70,000 o fynychwyr blynyddol. Mae'r Cwadrant Argyfwng yn cynnwys uned feddygol acíwt, uned asesu lawfeddygol ac uned Ymarferwyr Cyffredinol y Tu Allan i Or iau. Y llynedd bu inni wella'n model gofal trwy ddatblygu uned Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod (SDEC) ar gyfer achosion triniaeth ddydd, sydd bellach â chymorth meddyg acíwt llawn amser. Yr uned feddygol a llawfeddygol gyfun hon oedd y gyntaf o'i bath yng Nghymru. Denodd sylw cenedlaethol o ganlyniad i'r ffordd arloesol y bu inni ymgyfuno'r timau hyn a datblygu llwybrau newydd yn deillio o'r Adran Achosion Brys. Rydym yn bwriadu ategu ein gwasanaeth drwy ychwanegu uned eiddilwch a man derbyn Ymarfer Cyffredinol.	
Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F2 wythnosol – dyddiau Mercher, 2 – 3pm Cynhadledd glinigol wythnosol – dyddiau Mercher, 1 – 2pm Addysgu Meddygaeth Frys wythnosol
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Jennifer Dinsdale a Dr Tom O'Driscoll

Arbenigedd	Llawfeddygaeth Gyffredinol
Rhaglenni:	**FP/25**
Disgrifiad o'r lleoliad Y math o waith i'w ragddisgwyl a chyfleoedd dysgu	

Gofalu am gleifion mewnol llawfeddygol dan oruchwyliaeth cofrestryddion ac ymgynghorwyr. Asesu cleifion sy'n ymgyflwyno fel achosion brys a chyfrannu at eu hasesiad a'u dadebriad. Mae toreth o gyfleoedd dysgu yn sgil ystod enfawr o gyflwyniadau clinigol a'r bathole g sydd wrth eu gwraidd. Mae cyfleoedd hefyd i feithrin sgiliau clinigol, sgiliau llawdrin a sgiliau anghlinigol fel addysgu, archwilio a chynnal ymchwil. Ymhellach, mae sesi ynau addysgu rheolaidd a gweithgareddau addysgol eraill. Prif ddyletswyddau'r lleoliad Rowndiau ward fel aelod o dîm clinigol; goruchwylio meddygon FY1; gwaith clinigol ar wardiau, gan gynnwys cynnal gweithdrefna u; llunio crynodebau rhyddhau a chyfathrebu â meddygon teulu; cyfathrebu â grwpiau proffesiynol eraill; addysgu myfyrwyr meddygol a meddygon FY1; cynnal prosiectau archwilio. Patrwm gweithio nodweddiadol yn y lleoliad hwn: 8am – 4pm, gyda dyddiau ar alwad 8am – 9pm a nosweithiau ar alwad 8.30pm – 8.30am (gan gynnwys penwythnosau). Diwrnodau rota rhydd yn dilyn sifftiau ar alwad.	
Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F2 wythnosol – dyddiau Mercher, 2 – 3pm Cynhadledd glinigol wythnosol – dyddiau Mercher, 1 – 2pm Addysgu Llawfeddygol Wythnosol – dyddiau Gwener, 8 – 9am
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Mr Richard Morgan

Arbenigedd	**Orthopedeg**
Rhaglenni:	**FP/25 ac LFP/122**
Disgrifiad o'r lleoliad	

Glan Clwyd ac Ysbyty Abergele. 12 Ymgynghorwr Orthopedig. Gwasanaethu ar alwad ym maes trawma, cwmpasu gwasanaeth brys ac amlygiad i driniaethau orthopedeg a gynlluniwyd. Bydd y Meddyg F2 yn ymwneud â gofal cleifion ar wardiau, gan ymdrin ag atgyfeiriadau Orthopedig o'r Adran Achosion Brys. Ymroi i'r rota ar alwad ym maes Orthopedeg, gyda goruchwyliaeth gan y staff graddfa ganol a'r Ymgynghorydd sydd ar alwad gyda g ef.	
Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F2 wythnosol – dyddiau Mercher, 2 – 3pm Cynhadledd glinigol wythnosol – dyddiau Mercher, 1 – 2pm Addysgu Llawfeddygol Wythnosol – dyddiau Gwener, 8 – 9am
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Mr Amir Hannah & Mr Farhan Alvi

Arbenigedd	**Gastroenteroleg**
Rhaglenni:	**FP/27**
Disgrifiad o'r lleoliad Ward 9, Ysbyty Glan Clwyd Mae staff meddygol yr adran Gastroenteroleg yn cynnwys pedwar ymgynghorydd, un cofrestrydd arbenigol, dau CT2, un F2 ac un F1. Mae'r adran yn rhan o'r adran meddygaeth gyffredinol. Mae'r ysbyty'n ymdrin ag amserlen brysur o dderbyniadau meddygol acíwt annethol. Swydd ar ward yw hon gydag ymrwymiadau ar alwad. Mae cyfleusterau a chyfleoedd addysgol rhagorol gyda chyfarfodydd meddygol cyffredinol rheolaidd (tri chyfarfod yr wythnos). Mae'r swydd yn darparu cyfleoedd dysgu sylfaenol ym maes meddygaeth gyffredinol, gan gynnwys amlygiad i amrywiaeth eang o gyflyrau meddygol ar alwad. Mae'n hyrwyddo'r cyfle i nodi hanes meddygol a chynnal archwiliadau, datblygu cynlluniau ymchwilio a rheoli, yn ogystal â chynnig amlygiad rhagorol i gyflawni gweithdrefnau ymarferol. Mae'r adnoddau diweddaraf ar gael. Mae adran addysg yr arbenigedd yn cynnig cyfarfod addysg gastroenteroleg wythnosol y bydd deiliad y swydd yn cyfrannu ato. Cânt arddangos sgiliau caffael	

gwybodaeth a chyflwyno yn ogystal â deall pwysigrwydd llywodraethu clinigol, gan arfer prosesau llywodraethu rheolaidd a chynnal archwiliadau ar sail achosion aelodau o'r tîm. Dyma swydd brysur a fydd yn cymell yr hyfforddai i ddatblygu sgiliau cadarn o ran rheoli amser, gweithio mewn tîm a chyfathrebu. Bydd cefnlen o ddysg ar sail anhwylderau hepatofustlaidd a gastroberfeddol lwminaidd a chyfleoedd i ddatblygu cymhwysedd i gynnal paracentesis abdomenol. Llyfrgell ar y safle a chyfleusterau TG. Dyletswyddau ward yn bennaf, gan weithio'n agos gyda staff ar y ward. Trawsgyflenwi a sicrhau bod gwyliau blynyddol yn cael ei drefnu'n amserol gan roi rhybudd priodol a sicrhau cyflenwad staff priodol. Ymrwymiad ar alwad i ymwneud â'r derbyniadau meddygol annethol. Sicrhau bod y crynodebau rhyddhau electronig wedi'u cwblhau. Mynychu cyfarfodydd addysgol a chyfrannu atynt.

Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F2 wythnosol – dyddiau Mercher, 2 – 3pm Cynhadledd glinigol wythnosol – dyddiau Mercher, 1 – 2pm Rownd Wythnosol y Meddygon – dyddiau Gwener, 11:30-12:30 Cyfarfod Rheolaeth Feddygol Misol – ail ddydd Mawrth y mis am 13:00
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Aram Baghomian

Arbenigedd	**Ymarfer Cyffredinol**
Rhaglenni:	**FP/27**
Disgrifiad o'r lleoliad Canolfan Feddygol Gwrych, Abergele - **www.abergele-surgery.co.uk** Clinigau dan oruchwyliaeth ym maes gofal sylfaenol yn ymdrin â chleifion, dan adolygiad cyson ymarferwyr cyffredinol profiadol. Cyfleoedd i gydeistedd ag aelodau amrywiol o'r tîm gofal iechyd (mae rhaglen gynefino'r feddygfa'n cynnwys cydeistedd ag amrywiol ymarferwyr cyffredinol, y nyrs asthma/COPD, nyrs diabetes.) Ymweliadau cartref – hyd at ddau ymweliad y dydd yn unol â gofynion y practis. Cynigir tiwtorialau wythnosol yng nghwmni meddygon teulu dan hyfforddiant arbenigol (neu ar wahân os ffefrir hynny).	

Prif ddyletswyddau'r lleoliad Clinigau'n ymdrin â chleifion ym maes ymarfer cyffredinol. Nid ydym yn gweithredu system frysbennu felly ymdrinnir â chleifion waeth beth bynnag fo'u cwyn. Ceir Meddyg Teulu penodedig i ddarparu goruchwyliaeth a chymorth ar gyfer pob sesiwn (clinig). Ymweliadau cartref yn ôl yr angen.	
Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F2 wythnosol – dyddiau Mercher, 2 – 3pm Addysgu un i un
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Kate Davies a Dr Jeremy Honeybun

Arbenigedd	**Meddygaeth Fewnol Gyffredinol / Meddygaeth Strôc**
Rhaglenni:	**FP/27**
Disgrifiad o'r lleoliad Lleoliad ym meysydd Geriatreg, Meddygaeth Gyffredinol a Strôc yn seiliedig ar ward 14 gyda dyletswyddau ar alwad. Profiad clinigol rhagorol gyda chyfle i brofi amrywiaeth eang o achosion clinigol, gan ymdrin â hwy a dysgu amdanynt yn ystod cyfnodau Meddygol ar alwad. Profiad o ymdrin â dioddefwyr Strôc Acíwt gan gynnwys drwy gyfrwng thrombolysis. Ymgysylltu â'r tîm amlddisgyblaethol er budd adsefydlu cleifion mewnol. Darperir addysg ragorol a chyfleoedd i gyflwyno yn y gwahanol fforymau addysgol.	

Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F2 wythnosol – dyddiau Mercher, 2 – 3pm Cynhadledd glinigol wythnosol – dyddiau Mercher, 1 – 2pm Rownd Wythnosol y Meddygon – dyddiau Gwener, 11:30-12:30 Cyfarfod Rheolaeth Feddygol Misol – ail ddydd Mawrth y mis am 13:00 Addysgu COTE wythnosol ar ddyddiau Llun am 12:00
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr K N Ganeshram a Dr G D Black (Goruchwylwyr Addysgol)

Arbenigedd	**Meddygaeth Fewnol Gyffredinol / Meddygaeth Geriatrig**
Rhaglenni:	**LFP/122**
Disgrifiad o'r lleoliad Ward 1 Byddai'r hyfforddai wedi'i leoli ar ward 1. Ward Gofal yr Henoed, 24 gwely, ble câi'r hyfforddai brofiad eang o ymdrin â chleifion oedrannus â phroblemau meddygol acíwt a chronig. Byddai cyfleoedd i drafod diagnosis, rheolaeth a phrognosis gyda theuluoedd, meithrin profiad ym maes	

ffarmaco-therapiwteg, rhagnodi a dadragnodi, cymryd rhan mewn gwaith cynllunio cymhleth o ran rhyddhau cleifion ac ymwneud â thrafodaethau diwedd oes a senarios moesegol eraill.

Byddai'r hyfforddai'n cymryd rhan yn Rowndiau Bwrdd dyddiol y ward ac yn meithrin profiad o weithio gyda'r tîm amlddisgyblaethol (MDT).

Byddai'n ymgymryd â dyletswyddau ar alwad ym maes meddygaeth acíwt.

Mae dau ymgynghorydd yn bresennol a chynorthwyir y tîm gan gofrestrydd, hyfforddai meddygaeth fewnol, hyfforddai GPVTS a hyfforddai FY1.

Mae'r ddau feddyg ymgynghorol yn cynnal dwy rownd ward bob wythnos ac mae ymgynghorydd yn bresennol bob dydd.

Byddai'r hyfforddai hefyd yn cael cyfleoedd i addysgu myfyrwyr meddygol y bedwaredd a'r bumed flwyddyn. Bydd cyfranogiad ym maes gwella ansawdd, archwilio a phrosiectau eraill yn cael ei daer annog.

Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F2 wythnosol – dyddiau Mercher, 2 – 3pm Cynhadledd glinigol wythnosol – dyddiau Mercher, 1 – 2pm Rownd Wythnosol y Meddygon – dyddiau Gwener, 11:30-12:30 Cyfarfod Rheolaeth Feddygol Misol – ail ddydd Mawrth y mis am 13:00 Addysgu COTE wythnosol ar ddyddiau Llun am 12:00
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr I Chatterjee a Dr V Adhiyaman

Arbenigedd	Llawfeddygaeth Gyffredinol / Llawfeddygaeth y Colon a'r Rhefr
Rhaglenni:	**LFP/122**

Disgrifiad o'r lleoliad

Mae gan yr adran hon wyth llawfeddyg ymgynghorol sy'n arbenigo mewn llawfeddygaeth frys, gastroberfeddol uchaf, torgest a'r colon a'r rhefr.

Mae gennym hefyd ddeg cofrestrydd llawfeddygol a phedwar uwch-ymarferydd nyrsio.

Mae cyfleusterau amrywiol wrth law i ddelio â chleifion amrywiol sydd angen gofal fel cleifion mewnol neu drwy gyfrwng trinia eth ddydd.

Caiff hyfforddeion eu goruchwylio bob amser. Ceir rownd ward ddyddiol dan arweiniad ymgynghorydd neu SpR a disgwylir i bawb g yfathrebu â'i gilydd a gweithio fel tîm.

Bydd yr hyfforddai'n cael profiad eang o ymdrin â chleifion sy'n wynebu llawdriniaethau cyffredinol brys ac wedi'u cynllunio.

Yn ystod argyfyngau bydd yn dod i gysylltiad â chleifion â chyflyrau abdomen acíwt, yn dysgu sut i ddadebru ac ymdrin â chlei fion â gwaeleddau acíwt ynghyd â goruchwylio pobl hŷn. Bydd yn dysgu ynglŷn â gwneud penderfyniadau cymhleth, gan gynnwys penderfyniadau ar sail llawdriniaethau, y broses gydsynio, cyfathrebu â theuluoedd cleifion, mynegi newyddion drwg, penderfyniadau diwedd oes ac ati.

Bydd cyfleoedd i fynychu theatrau, i ddysgu sgiliau llawfeddygol sylfaenol ac i gynorthwyo â llawdriniaethau cymhleth, gan gy nnwys llawdriniaethau canser y coluddyn, wrth gwmpasu llawdriniaethau brys a rhai wedi'u cynllunio.

Bydd cyfleoedd hefyd i fynychu clinigau cleifion allanol a dod i ddeall sut mae cyflyrau llawfeddygol amrywiol yn cael eu cad w dan reolaeth. Bydd modd dysgu sut i asesu'r cyflyrau hyn a llunio llwybrau ymchwilio priodol ar eu cyfer dan oruchwyliaeth.

Tuag at ddiwedd y lleoliad bydd gan hyfforddeion ddealltwriaeth gyffredinol o ymgyflwyniad a rheolaeth amrywiol gyflyrau llaw feddygol cyffredinol. Byddant hefyd wedi datblygu eu sgiliau llawfeddygol sylfaenol.

Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F2 wythnosol, dyddiau Mercher, 2 - 3pm Cynhadledd Glinigol Wythnosol, dyddiau Mercher, 1 – 2pm Addysgu Llawfeddygol Wythnosol, dyddiau Gwener 8-9am
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Mr Sheik Rehman

Arbenigedd	Meddygaeth Fewnol Gyffredinol / Meddygaeth Anadlol
Rhaglenni:	**FP/29**

Disgrifiad o'r lleoliad

Ward 11

Swydd F2 yn unol â rota ar alwad ym maes Meddygaeth Anadlol a Meddygaeth Gyffredinol. Mae gan y ward Anadlol 24 o welyau gan gynnwys pedwar gwely cymorth anadlu anfewnwthiol. Mae dau dîm anadlol ar y ward ar gyfer y gwelyau hyn, y naill dîm a'r llall yn cynnwys un ymgynghorydd anadlol, un cofrestrydd anadlol, F2 neu IMT ac un F1. Cynhelir rowndiau bwrdd dyddiol yn ystod yr wythnos, ar ddechrau'r diwrnod, dan arweiniad meddygon ymgynghorol a chyda chyfranogiad staff meddygol iau. Cynhelir rowndiau ward ymgynghorwyr ddwywaith yr wythnos a rownd ward cofrestryddion unwaith yr wythnos. Disgwylir i'r F2 fynychu'r rowndiau ward, cyflwyno cleifion, ymroi i addysg yn ystod y rowndiau ward a chydlynu ymchwiliadau dilynol yn ogystal â chasglu canlyniadau a llunio crynodebau rhyddhau cyflawn. Disgwylir hefyd i'r F2 ynghyd â'r F1 gwblhau dwy rownd ward bob wythnos. Mae meddygon ymgynghorol yn mynychu'r ward bob dydd yn ystod y prynhawn i drafod achosion a chanlyniadau. Yn ogystal â chymorth anadlu anfewnwthiol, mae gan y ward hefyd ocsigen trwynol llif uchel a pheiriant uwchsain sy'n rhoi cyfleoedd i ddysgu am eu defnydd ym maes meddygaeth anadlol. Yn ogystal â'r ward, mae posibilrwydd mynychu clinigau anadlol cyffredinol ac arbenigol gan gynnwys clinigau asthma dyrys, canser yr ysgyfaint, anhwylderau pliwraidd, ILD, COPD a broncïectasis. Mae dwy restr driniaethau y gellir mynychu arlwy un ohonynt bob wythnos a chael bod yn dyst i EBUS a thoracosgopi yn ogystal â broncosgopi. Mae'r F2 yn cymryd rhan yn y rota feddygol gyffredinol ar alwad fel rhan o slot F2. Mae hyn yn cynnwys goruchwyliad ward a gweld cleifion o blith y derbyniadau annethol. Mae'r F2 yn gweithio'n ystod yr wythnos, penwythnosau a nosweithiau. Cynhelir rowndiau ward meddygon ymgynghorol ddwywaith y dydd i adolygu cleifion a gaiff eu gweld gan staff meddygol iau. Mae gan yr adran anadlol gyfarfod addysgol adrannol bob dydd Llun a bydd yr F1 yn cymryd rhan mewn rota i gyflwyno achosion/pynciau.

Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F2 wythnosol – dyddiau Mercher, 2 – 3pm Cynhadledd glinigol wythnosol – dyddiau Mercher, 1 – 2pm Rownd Wythnosol y Meddygon – dyddiau Gwener, 11:30-12:30 Cyfarfod Rheolaeth Feddygol Misol – ail ddydd Mawrth y mis am 13:00 Addysgu Anadlol Wythnosol

Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Robin Poyner

Arbenigedd	**Meddygaeth Acíwt**
Rhaglenni:	**FP/29**

Disgrifiad o'r lleoliad

Mae'r Adran Meddygaeth Acíwt yn cynnwys pedwar Meddyg Ymgynghorol, sef:

1 x 0.5 Meddygaeth Acíwt + 0.5 Meddygaeth Arennol

2 x 0.5 Meddygaeth Acíwt + 0.5 Diabetes ac Endocrinoleg

1 x 1.0 Meddyginiaeth Acíwt.

Mae adran triniaethau dydd, gwasanaeth DVT a gwasanaeth ADTT yn gysylltiedig â'r uned. Mae'r adran yn gwasanaethu Canolbarth Gogledd Cymru gyda phoblogaeth ddalgylch o 250,000.

Disgrifiad o'r lleoliad

Mae'r Adran Meddygaeth Acíwt yn cynnwys pedwar Meddyg Ymgynghorol y mae dau ohonynt yn ymroi i feddygaeth acíwt a diabetes/endocrinoleg ac un yn ymroi i feddygaeth acíwt a meddygaeth arennol. Mae arbenigwr cyswllt sy'n gofalu am gleifion dan adolygiad dri diwrnod yr wythnos. Mae adran triniaethau dydd, gwasanaeth DVT a gwasanaeth ADTT yn gysylltiedig â'r uned.

Mae'r adran yn gwasanaethu Canolbarth Gogledd Cymru gyda phoblogaeth ddalgylch o 250,000.

Mae F1 ac F2 yn ymroi i wasanaeth yr uned. Byddant yn ymwneud â gwaith clercio cyffredinol ar ran cleifion sy'n cael eu derbyn yn ogystal â gofal parhaus y cleifion hynny sy'n yr uned hyd nes iddynt gael eu trosglwyddo i'r wardiau meddygol eraill.

Amcanion addysgol cyffredinol y flwyddyn F1/F2 yw arfogi hyfforddeion â'r wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau i allu arfer y canlynol:

- Nodi hanes meddygol ac archwilio cleifion.

• Dynodi a chyfosod problemau. • Rhagnodi'n ddiogel. • Cadw cofnod meddygol cywir a pherthnasol. • Rheoli amser a blaenoriaethau clinigol yn effeithiol. • Cyfathrebu'n effeithiol gyda chleifion, perthnasau a chydweithwyr. • Defnyddio tystiolaeth, canllawiau ac archwiliadau er budd gofal cleifion. • Gweithredu mewn modd proffesiynol bob amser. • Ymdopi â materion moesegol a chyfreithiol sy'n codi wrth ymdrin â chleifion â phroblemau meddygol cyffredinol. • Addysgu cleifion yn effeithiol.	
Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F2 wythnosol – dyddiau Mercher, 2 – 3pm Cynhadledd glinigol wythnosol – dyddiau Mercher, 1 – 2pm Rownd Wythnosol y Meddygon – dyddiau Gwener, 11:30-12:30 Cyfarfod Rheolaeth Feddygol Misol – ail ddydd Mawrth y mis am 13:00 Addysgu ar Ward
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Sreemantula

Arbenigedd	Dermatoleg
Rhaglenni:	**FP/129**

Disgrifiad o'r Lleoliad:

Mae'r Adran Ddermatoleg yn Ysbyty Glan Clwyd yn ymdrin â chleifion o bob oed sydd ag anhwylderau croen amrywiol gan gynnwys canser y croen, clefyd croen cyn-falaen a dermatoses llidiol. Mae'r lleoliad hwn yn rhoi'r cyfle i ddysgu am hanfodion dermatoleg mewn amgylchedd cefnogol. Cynhelir cyfran helaeth o'r gwaith mewn clinigau yn yr adran cleifion allanol a threulir amser hefyd yn adolygu cleifion mewn ol â chlefydau dermatolegol acíwt. Mae'r adran yn cynnwys pum Dermatolegydd Ymgynghorol, dau neu dri o Hyfforddeion Arbenigedd, pum Nyrs Arbenigol, Fferyllydd Clinigol a Ffototherapydd. Yn ogystal â thriniaethau meddygol, mae'r adran yn darparu ffototherapi, llawdriniaethau ar y croen a phrofion clytiau i gleifion. Mae digonedd o gyfleoedd i ymwneud â gwaith archwilio / gwella ansawdd / cyflwyniadau.

Dyletswyddau'r lleoliad:

- Mynychu clinigau cleifion allanol dermatoleg.
- Cynorthwyo rowndiau ward dermatoleg (Dydd Llun – Gwener).
- Adolygu cleifion dermatoleg sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty'n ddyddiol.
- Mynychu cyfarfod amlddisgyblaethol canser y croen lleol.
- Cyfranogiad/presenoldeb mewn sesiynau addysgu adrannol, cyfarfodydd addysgol dermatoleg misol, prif rownd y meddygon.

Sgiliau'r lleoliad:

- Nodi hanes ac archwilio cleifion sy'n ymgyflwyno â briwiau.
- Nodi hanes ac archwilio cleifion sy'n ymgyflwyno â brechau.
- Defnyddio terminoleg ddermatolegol gywir.
- Meithrin adnabyddiaeth o'r opsiynau ymdrin ar gyfer briwiau malaen, cyn-falaen ac anfalaen cyffredin.
- Meithrin adnabyddiaeth o'r opsiynau ymdrin ar gyfer dermatoses llidiol cyffredin.
- Meithrin dealltwriaeth o'r dulliau diogel o fonitro ac asesu cleifion sydd ar feddyginiaethau systemig a therapïau biolegol.
- Llunio gohebiaeth berthnasol a chlir â gofal sylfaenol yn dilyn ymweliadau cleifion allanol.

Cyfarfodydd Addysgol:	

	Addysgu F2 wythnosol – dyddiau Mercher, 2 – 3pm Cynhadledd glinigol wythnosol – dyddiau Mercher, 1 – 2pm Rownd Wythnosol y Meddygon – dyddiau Gwener, 11:30-12:30 Cyfarfod Rheolaeth Feddygol Misol – ail ddydd Mawrth y mis am 13:00
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Rachel Waas

Arbenigedd	**Meddygaeth Fewnol Gyffredinol / Meddygaeth Geriatrig**
Rhaglenni:	**LFP/129**

Disgrifiad o'r lleoliad

Ward 2

Ward Gofal yr Henoed, 24 gwely, ble câi'r hyfforddai brofiad eang o ymdrin â chleifion oedrannus â phroblemau meddygol acíwt a chronig. Byddai cyfleoedd i drafod diagnosis, rheolaeth a phrognosis gyda theuluoedd, meithrin profiad ym maes ffarmaco-therapiwteg, rhagnodi a dadragnodi, cymryd rhan mewn gwaith cynllunio cymhleth o ran rhyddhau cleifion ac ymwneud â thrafodaethau diwedd oes a senarios moesegol eraill.

Byddai'r hyfforddai'n meithrin profiad o weithio gyda'r tîm amlddisgyblaethol (MDT).

Byddent hefyd yn ysgwyddo dyletswyddau ar alwad o ran meddygaeth acíwt.

Mae dau ymgynghorydd yn bresennol a chynorthwyir y tîm gan gofrestrydd, hyfforddai meddygaeth fewnol, hyfforddai GPVTS a hyfforddai FY1.

Mae'r ddau ymgynghorydd yn cynnal rowndiau ward rheolaidd ac mae ymgynghorydd yn bresennol bob bore ar ddiwrnodau gwaith. Byddai'r hyfforddai'n cymryd rhan mewn rowndiau ward annibynnol a than arweiniad meddygon ymgynghorol.

Byddai'r hyfforddai hefyd yn cael cyfleoedd i addysgu myfyrwyr meddygol y bedwaredd a'r bumed flwyddyn. Bydd cyfranogiad ym maes gwella ansawdd, archwilio a phrosiectau eraill yn cael ei daer annog. Darperir cyfleoedd addysgu rhagorol ym maes COTE a bydd cyfleoedd i gyflwyno yn y gwahanol fforymau addysgol.	
Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F2 wythnosol – dyddiau Mercher, 2 – 3pm Cynhadledd glinigol wythnosol – dyddiau Mercher, 1 – 2pm Rownd Wythnosol y Meddygon – dyddiau Gwener, 11:30-12:30 Cyfarfod Rheolaeth Feddygol Misol – ail ddydd Mawrth y mis am 13:00 Addysgu COTE wythnosol ar ddyddiau Llun am 12:00
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr S Chakrabarti (goruchwyliwr addysgol) Dr G Owen (goruchwyliwr clinigol)

Arbenigedd	**Llawfeddygaeth Gyffredinol / Otolaryngoleg**
Rhaglenni:	**FP/28**

Disgrifiad o'r Lleoliad Ward 5
Mae'r adran ENT yng Nglan Clwyd dan arweiniad pedwar llawfeddyg ymgynghorol ac mae'n gwasanaethu poblogaeth ddalgylch o 310,000 o bobl.

Mae'r adran yn darparu ystod lawn o wasanaethau ENT ac awdiolegol. Mae'n darparu gwasanaethau rhanbarthol ar gyfer canser y Pen a'r Gwddf a mewnblaniadau yn y Cochlea.

Mae'n cynnal cyrsiau hyfforddiant ôl-raddedig rheolaidd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.
Mae'r meddyg F2 yn gyfrifol ar y cyd ag aelodau eraill am roi gofal i gleifion ar y ward yn ogystal â chynnal eu cofnodion meddygol. Disgwylir i'r meddyg ymroi i'r rhaglenni addysgu strwythuredig a ddarperir gan yr adran. Bydd yn gyfrifol am ddyletswyddau clinigol penodol eraill a gaiff eu dyrannu iddo gan feddygon ymgynghorol. Gall hyn gynnwys cyflawni dyletswyddau eraill mewn ymateb i argyfyngau achlysurol ac amgylchiadau anrhagweledig.

Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F2 wythnosol – dyddiau Mercher, 2 – 3pm Cynhadledd glinigol wythnosol – dyddiau Mercher, 1 – 2pm Addysgu Llawfeddygol Wythnosol – dyddiau Gwener, 8 – 9am Addysgu ar Ward
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Mr Richard Anthony

Arbenigedd	**Seiciatreg Gyffredinol**
Rhaglenni:	FP/28

Disgrifiad o'r lleoliad
Mae'r swydd yn gysylltiedig â Thîm Iechyd Meddwl Cymunedol (TIMC) Hafod, sy'n darparu gofal iechyd meddwl i oedolion yng ngogledd Sir Ddinbych. Mae gwelyau cleifion mewnol ar gyfer y boblogaeth yn Uned Ablett Ysbyty Glan Clwyd. Mae'r Uned yn darparu gwelyau cleifion mewnol i oedolion a phobl hŷn a gwelyau adsefydlu ar gyfer dalgylch Conwy a Sir Ddinbych ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Y math o waith i'w ragddisgwyl a chyfleoedd dysgu

Bydd yr F2 wedi'i benodi'n rhan o Hafod sef TIMC yn y Rhyl. Mae Hafod yn darparu gwasanaeth iechyd meddwl cymunedol sylfaenol ac eilaidd i ogledd Sir Ddinbych. Bydd deiliad y swydd yn ymdrin â chleifion mewn clinig dan oruchwyliaeth seiciatrydd ymgynghorol.

Mae cyfleoedd ar gael i dreulio amser yn ymwneud ag is-arbenigeddau seiciatrig gan gynnwys SMS, fforensig, OPMH, LD a CAMHS.

Bydd deiliad y swydd yn ymroi i rota ar alwad yn uned Ablett, yn darparu gofal meddygol i'r wardiau seiciatrig gan gynnwys wardiau oddi ar y safle ym Mae Colwyn a Rhuthun.
Amcanion addysgol cyffredinol y flwyddyn F2 yw arfogi hyfforddeion â'r wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau i allu arfer y canlynol:
Nodi hanes seiciatrig llawn ac archwilio cleifion.
Cynnal Archwiliad Cyflwr Meddyliol llawn.
Datblygu sgiliau o ran cynnal archwiliadau Gwybyddol.
Dynodi problemau ac ymateb yn weithredol iddynt.
Nodi amrywiol ymgyflwyniadau gwahaniaethol ym maes gofal acíwt.
Dynodi deliriwm a chynnal diagnosis gwahaniaethol.
Rheoli a thrin ymddygiadau treisgar ac ymosodol dan oruchwyliaeth.
Cadw cofnodion cywir a pherthnasol.
Gweithredu camau dilynol ac ymateb yn weithredol i ymchwiliadau perthnasol.
Llunio diagnosis seiciatrig.
Cyrchu gwybodaeth ategol/cyfnerthol.
Cynnal asesiadau risg.
Gweithredu fel dirprwy enwebedig at
ddibenion y Ddeddf Iechyd Meddwl.
Meithrin gwybodaeth ymarferol am y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol.
Defnyddio tystiolaeth a chanllawiau i lunio cynlluniau rheoli priodol.
Cyfathrebu'n effeithiol gyda chydweithwyr, cleifion a pherthnasau.
Gweithredu mewn modd proffesiynol.
Ymdopi â materion moesegol a chyfreithiol sy'n codi yn ystod diwrnod gwaith.
Ymofyn cymorth a chyngor mewn modd amserol.
Meithrin gwybodaeth ymarferol am systemau gofal acíwt ym maes Iechyd Meddwl.

Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F2 wythnosol – dyddiau Mercher, 2 – 3pm Addysgu Seiciatrig wythnosol – dyddiau Llun, 2 – 5pm

Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Stuart Porter

Cylchdro Academaidd

RHAGLEN: SFP-Arall/30

Tair swydd wag

- **Meddygaeth Gofal Dwys – Dr J Glen, Ysbyty Glan Clwyd**
- **Meddygaeth Anadlol – Dr D Menzies, Ysbyty Glan Clwyd**
- **Ymarfer Cyffredinol – Dr S Dobson, Canolfan Feddygol Clarence, Y Rhyl**

Gwybodaeth Gyffredinol:

Treulir tri diwrnod yr wythnos yn ymgymryd â hyfforddiant traddodiadol gan gylchdroi o'r naill arbenigedd uchod i'r llall. Bydd dau ddiwrnod gwarchodedig, diffiniedig yr wythnos yn cael ei neilltuo er budd cyfuniad o ymchwil ac addysgu arbenigol. Byddem yn eich annog i gysylltu â ni'n gynnar i drafod y swydd, yn enwedig yr elfennau ymchwil.
Ym maes Gofal Dwys byddwch yn gweithio fel rhan o'r tîm ICU, gan gynnwys ymroi i waith y tu allan i oriau.

Addysgu

Bydd diwrnod yr wythnos yn cael ei dreulio yn Ysgol Glinigol Gogledd Cymru, Ysbyty Glan Clwyd. Byddwch yn cynorthwyo i draddodi'r cwricwlwm israddedig ar gyfer myfyrwyr meddygol blynyddoedd 3, 4 a 5 ysgolion meddygol Caerdydd a Manceinion. Byddwch yn cynorthwyo cymrawd addysgu graddfa cofrestrydd arbenigol llawn-amser, sydd eisoes yn benodedig, ynghyd â gweddill y tîm israddedig. Bydd y dyletswyddau'n cynnwys addysgu ar y wardiau, hyfforddiant efelychu, hwyluso tiwtorialau a datblygu deunyddiau hyfforddi israddedigion.

Byddwch hefyd yn arwain ac yn traddodi ein Rhaglen Ehangu Mynediad i Feddygaeth, mewn cydweithrediad â Rhwydwaith Seren Llywodraeth Cymru sy'n sefydledig yn ein rhanbarth. Mae'r rhaglen bwysig hon yn cynorthwyo myfyrwyr ysgolion gwladol lleol gyda'u ceisiadau ar gyfer ysgolion meddygol. Byddwch yn gyfrifol am sicrhau bod y rhaglen yn cael ei thraddodi. Mae'r rhaglen yn cynnwys ymarfer cyfweliad, paratoadau UCAT, gwaith grŵp bach, llunio traethawd a phrofiad gwaith yn ystod mis Gorffennaf (os yw COVID yn caniatáu). Trwy ymgeisio am y swydd hon, rydych yn ymrwymo i'r gweithgarwch gwirfoddol, allgarol hwn a gynhelir dros gyfanswm o 16 noson yn ystod y flwyddyn academaidd – ar ddyddiau Mercher, rhwng 1700 – 1930. Yn sgil y ffaith bod tri ohonoch, fe allech chi hunan-amserlennu i sicrhau'ch bod yn darparu ar gyfer yr holl nosweithiau. Bydd eich cyfrifoldebau penodol yn cynnwys:

- Hyrwyddo'r rhaglen ymhlith eich cydweithwyr fel bod nifer digonol o staff y gyfadran ar gael bob wythnos (mae angen wyth aelod o staff arnom bob wythnos, sy'n cynnwys meddygon o bob gradd a myfyrwyr meddygol).
- Hyrwyddo'r rhaglen ymhlith myfyrwyr ysgol yn ystod y digwyddiad croesawu.
- Darparu hyfforddiant i staff sy'n gwirfoddoli (peidiwch â phoeni, byddwn yn rhoi hyfforddiant ichi'n gyntaf!).
- Amserlennu a chyfathrebu â staff y gyfadran a myfyrwyr.
- Cynnal pob sesiwn a chywiro diffygion (ar *Teams* neu wyneb yn wyneb yn dibynnu ar sefyllfa COVID).
- Sicrhau bod y traethodau'n cael eu marcio a'u dychwelyd.
- Cymryd rhan yn yr orchwyl o draddodi'r wythnos profiad gwaith ym mis Gorffennaf.

Mae'r rhaglen a'r deunyddiau eisoes yn bodoli, ond efallai y bydd angen eu diweddaru wrth i amser fynd heibio. Byddwch yn ymwneud â'r orchwyl hon hefyd.

Cewch gymorth parod gan Dr Glen, Dr Menzies a'r ysgol glinigol er budd cynnal y gweithgarwch hwn. Fodd bynnag, daw gwir gyfrifoldeb yn ei sgil felly, os nad yw'n apelio, gochelwch rhag ymgeisio am y swydd.

Ymchwil

Bydd diwrnod yr wythnos yn cael ei neilltuo i waith ymchwil. Bydd y maes ymchwil yn dibynnu ar eich amgylchiadau a'ch diddordebau unigol. Bydd y bwrdd iechyd yn **ariannu MRes lawn**, o fewn y Fframwaith Llwybr Arbenigol Clinigol, drwy gyfrwng Sefydliad Ymchwil Iechyd a Meddygol Prifysgol Bangor ar eich rhan. Bydd hyn yn cynnwys pennu goruchwyliwr clinigol ac arbenigol a modd o gyrchu hyfforddiant ymchwil modiwlaidd, yn unol â'ch lefel bresennol o wybodaeth a hyfforddiant. Bydd hefyd yn gwarantu cymorth er budd cyflwyno'ch traethawd ymchwil.
Yn ogystal ag ymgymryd ag MRes ar sail ymchwil, mae'r cyfleoedd ymchwil ac archwilio canlynol hefyd yn bodoli:

- Integreiddiad i'r uned Treialon Clinigol yn Ysbyty Glan Clwyd.
- Cyfranogiad mewn treialon anfasnachol a masnachol, y mae'r broses recriwtio ar eu cyfer yn fyw ar ein gwefan ar hyn o bryd.

- Hyfforddiant GCP os oes angen.
- Cymorth gan yr adran awdit clinigol.

Bydd hanfod eich prosiect MRes yn cael ei bennu gan eich diddordebau ond mae enghreifftiau posibl yn cynnwys:

- Arfarniad o effaith gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu, ym maes gofal eilaidd, ar iechyd a lles cleifion sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty.
- Afiachedd a marwoldeb sy'n gysylltiedig ag emboledd ysgyfeiniol tybiedig ac a gadarnhawyd.
- Effaith *mepoluzimab* ar gleifion asthma dan law gwasanaeth asthma gofal eilaidd.
- Defnyddioldeb cronfa ddata bwrpasol ar sail clefydau pliwraidd ym maes gofal eilaidd a deilliannau thoracosgopi.

Arbenigedd	**Meddygaeth Gofal Dwys**
Rhaglenni:	SFP/030
Disgrifiad o'r lleoliad Yn yr Uned Gofal Dwys, byddwch yn ymroi i ofalu am gleifion difrifol wael, dan oruchwyliaeth. Rydym yn cynnig yr ystod lawn o driniaethau gofal dwys safonol gan gynnwys cymorth anadlu mewnwthiol, cymorth inotropaidd, therapi amnewid arennol yn ogystal â gwrthguriad swigen intra-aortaidd. Mae ein huned 13 gwely wedi'i lleoli yng Nghanolfan Ataliad y Galon Gogledd Cymru. O ganlyniad, mae gennym berthynas glos â'n cydweithwyr ym maes cardioleg ymyriadol. Byddwch yn cael cyfleoedd i ddysgu am fynediad fasgwlaidd ymwthiol (llinellau canolog, llinellau rhydwelïol, llinellau dialysis), yn ogystal ag uwchsain: mae gennym ddau fentor FUSIC yn rhan o'r uned. Byddwch yn dod i arfer ag ymdrin â chleifion gwael ac yn dysgu sut i gyflwyno achosion cymhleth mewn modd cryno – sgil allweddol i unrhyw glinigwr sy'n dymuno ennill ei blwyf. Byddwch yn mynychu ein cyfarfod amlddisgyblaethol wythnosol, ein cyfarfod afiachedd a marwoldeb misol, cyfarfodydd Llywodraethu Clinigol misol a'n Clwb Cyfnodolyn. Bydd disgwyl i chi gyflwyno fel aelod o'r Clwb Cyfnodolyn a'r cyfarfod afiachedd a marwoldeb. Byddwch hefyd yn mynychu sesiynau addysgu anesthesia ac ICM rheolaidd. Yn olaf, cewch gyfle i weithio gyda'n tîm allgymorth, gan ddysgu sut i ddynodi a sefydlogi cleifion sy'n prysur ddirywio.	

Mae'r wybodaeth ganlynol yn seiliedig ar brofiad un o'r hyfforddeion 2020-21 ar ddiwedd eu blwyddyn academaidd FY2. Mae wedi'i diweddaru ar gyfer blwyddyn academaidd 2022-23.

Uned Gofal Dwys (llawr cyntaf)

- 08:30 – 17:00. Mae'r trosglwyddiad boreol am 08:30 (BYDDWCH YN BRYDLON!). Mae'r rhan fwyaf o bobl yn newid i'w sgrybs ymlaen llaw. Gofynnwch i rywun eich cyfeirio at ystafelloedd newid y theatr i'w casglu.
- Mae rownd ward foreol yn cael ei chynnal yn ddyddiol dan arweiniad meddyg ymgynghorol, felly ewch ati i adolygu cleifion drwy gyfrwng y profforma.
- Mae arlwy'r prynhawniau'n cynnwys cwblhau'n tasgau, adolygu derbyniadau newydd ac ymweld â chleifion ar y wardiau.
- Caiff sesiynau'r rhaglen addysgu anestheteg gofal dwys eu cynnal yn fisol ond peidiwch oedi rhag gofyn cwestiynau unrhyw bryd.
- Mae dogfen gynefino ICU arbennig a fydd yn cael ei hanfon atoch, sy'n rhan o ap ffôn clyfar.
- Mae cyfleoedd helaeth i gynnal gweithdrefnau fel llinellau rhydwelïol os dymunwch.
- Byddwch yn cael eich ychwanegu at y grŵp *WhatsApp* 'Meddygon ICU' a fydd yn cynnwys pawb yn yr Uned. Bydd gwybodaeth ddefnyddiol yn cael ei rhannu drwy'i gyfrwng.
- Mae dau ymgynghorydd yn gwasanaethu'r Uned yn ystod yr wythnos (yn ystod y dydd).
- Mae cyfansoddiad y tîm iau yn ystod y dydd yn amrywio ond, yn gyffredinol, mae'n cynnwys dau aelod graddfa ganol (SpR neu raddfa ymddiriedolaeth) ynghyd â chymysgedd o raddfeydd eraill a chithau yn eu plith.
- Byddwch yn rhan o dîm yr Uned Gofal Dwys. Cewch gynhaliaeth gref. Bydd aelod uwch o ran graddfa ICU wastad yn bresennol. Disgwylir i chi adolygu cleifion ar yr uned, mynychu galwadau brys a chymryd rhan weithredol.
- Yn ystod eich lleoliad ICU byddwch yn cyfrannu at waith y tu allan i oriau, gan gynnwys sifftiau nos. Bydd cymorth wrth law yn sgil tri meddyg arall: dau anesthetydd (sydd hefyd yn cwmpasu'r theatr ac obstetreg) a thrydydd meddyg sydd â phrofiad o weithio yn yr Uned Gofal Dwys. Os aiff pethau o chwith y tu allan i oriau bydd yr ymgynghorydd wrth law fel arfer.
- Byddwn yn sicrhau nad yw gweithio y tu allan i oriau yn effeithio ar eich ymrwymiadau eraill, ond bydd angen hyblygrwydd ar y ddwy ochr.

Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F2 wythnosol, dyddiau Mercher, 2 – 3pm MDT ICU wythnosol, dyddiau Mawrth, 2 – 3pm Cynhadledd glinigol yr ysbyty, dyddiau Mercher, 1 – 2pm Afiachedd a Marwoldeb, ail ddydd Mawrth y mis, 17:30 Darlith gyfresol, trydydd dydd Mawrth y mis, 17:30 Llywodraethu Clinigol, pedwerydd dydd Mawrth y mis, 17:30 Anesthesia lleol a rhanbarthol / addysgu ICU - wedi'i amserlennu
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr John Glen

Arbenigedd	Ymarfer Cyffredinol
Rhaglenni:	SFP/30

Disgrifiad o'r lleoliad

Byddwch yn gweithio'n glos o fewn tîm gofal sylfaenol deinamig, amlddisgyblaethol yn y Rhyl ac yn cael y cyfle i brofi'r sbectrwm llawn o ran gofal yn y gymuned. Byddwch yn cael eich cynorthwyo i ddatblygu'ch sgiliau o ran cyfathrebu a rheolaeth glinigol trwy ymgynghori â chleifion mewn cymysgedd o glinigau acíwt, cymorthfeydd arferol ac ymweliadau cartref. Mae ystod eang o gyfleoedd i ddysgu am yr agweddau ehangach ar ofal sylfaenol. Gall hyn gynnwys treulio amser yng nghwmni nyrsys clefydau cronig a nyrsys Pediatrig, gweithio ochr yn ochr â'n Uwch-barafeddyg ac ymwneud â'n tîm ymchwil gofal sylfaenol ymroddedig. Byddwch hefyd yn mynychu cyfarfodydd addysgol mewnol rheolaidd, cyfarfodydd amlddisgyblaethol Anadlol ac yn cael y cyfle i ddysgu am reolaeth gofal sylfaenol. Mae'r practis yn cynnal lleoliadau ar gyfer myfyrwyr meddygol o Gaerdydd, Lerpwl a Manceinion, a byddech yn cael eich annog i gynorthwyo eu dysg.

Mae angen i chi fynychu'r sesiynau addysgu FY2 rhwng 2-3pm ar bnawniau Mercher. Cadwch hyn mewn cof pan ar leoliad Ymarfer Cyffredinol i ddarparu ar gyfer taith 15 munud yn y car i'r ganolfan ÔI-raddedig.

GWYBODAETH ALLWEDDOL Canolfan Feddygol Clarence, Y Rhyl - www.clarencemedicalrhyl.co.uk

Practis hyfforddi mawr ydy'r Ganolfan mewn tref glan môr yng Ngogledd Cymru, sy'n gwasanaethu tua 17,000 o gleifion o blith demograffeg eang. Mae gan y practis hanes y gellir ei olrhain i 1850. Rydym wedi'n lleoli ar ddau safle. Mae'r prif safle yng nghanol y dref yn agos at Orllewin y Rhyl, sy'n cynnwys yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae ail gangen y practis (Tŷ Elan) yn ardal dawelach y Dwyrain, sy'n gwasanaethu mwy o bobl hŷn â chyflyrau meddygol cymhleth. Rydym yn gofalu am tua 15 o gartrefi nyrsio a phreswyl yn ogystal â llawer o bobl hŷn sy'n byw ar eu pennau eu hunain ag ychydig iawn o gymorth. Rydym hefyd yn cynnig gwasanaeth ymgynghori ar-lein (PATCHS) https://patchs.ai/practice/clarencemedicalrhyl/.

Cynhelir prosiectau ymchwil yn rheolaidd yng Nghanolfan Feddygol Clarence. Mae'r diolch am hyn yn ddyledus i'r tîm ymchwil sy'n cynllunio'r prosiectau, y meddygon teulu, nyrsys, cynorthwywyr gofal iechyd ac, yn bennaf oll, y cleifion sy'n cymryd rhan yn y treialon. Rydym yn annog ac yn cynorthwyo unrhyw un sy'n awyddus i fod yn rhan o'n prosiectau ymchwil. Maent yn ein galluogi i ganfod triniaethau newydd ac effeithiol ar gyfer amrywiaeth o gyflyrau meddygol gwahanol.

Yn aml, cynhelir cyfarfodydd addysgol amser cinio trwy gydol yr wythnos yn ogystal â phrynhawn hyfforddiant misol. Caiff y sesiynau addysgol a'r hyfforddiant eu cofnodi ar yr ap *Timetree* Mewngofnodi *TimeTree* (timetreeapp.com). Mae hyn yn caniatáu i bawb weld a oes unrhyw beth yn yr arfaeth er mwyn mynychu.

Cyfarfodydd Addysgol:	Dyddiol - Adolygiadau o achosion clinigol Addysgu F2 wythnosol, dyddiau Mercher, 2 – 3pm Wythnosol - cyfarfod addysgol amser cinio yn y feddygfa.
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Simon Dobson

Arbenigedd	Meddygaeth Anadlol
Rhaglenni:	SFP/30

Disgrifiad o'r lleoliad

Ward 6 – Anadlol

Croeso i ail flwyddyn y rhaglen sylfaen academaidd yn Ysbyty Glan Clwyd (YGC). Mae'r swydd hon yn cwmpasu Gofal Dwys, Meddygaeth Anadlol ac Ymarfer Cyffredinol dros rychwant o dri chylchdro pedwar mis o hyd, ynghyd ag ymrwymiad ymchwil ac addysgu parhaus.

Ym maes anadlol byddwch yn ymuno â'n tîm sefydledig sy'n cynnwys pum ymgynghorydd a meddygon iau ar y ward anadlol. Mae'r ward yn cynnwys uned cymorth anadlu anfewnwthiol pedwar gwely dan arweiniad nyrsys, gyda darpariaeth ar gyfer triniaeth ag ocsigen trwynol llif uchel. Cewch amlygiad i amrywiaeth o gyflyrau anadlol a'r dulliau o ymdrin â hwy, gan gynnwys COPD, asthma, ILD, niwmonia, clefydau pliwraidd (gan gynnwys rheoli draeniad), canser yr ysgyfaint a COVID. Cynorthwyir y tîm gan nifer o nyrsys anadlol arbenigol ymroddedig, uwch-ymarferydd nyrsio ar y ward, tîm ymchwil integredig yn ogystal â chymrawd addysgu ac ymyrraeth anadlol y byddwch yn gweithio ochr yn ochr ag ef.

Mae clinigau penodol ar sail COPD, asthma anodd, canser yr ysgyfaint, clefydau pliwraidd, ILD a bronciectasis yn ogystal â chlinigau anadlol cyffredinol y mae croeso i chi eu mynychu. Mae croeso i chi hefyd fynychu ein cyfarfod wythnosol amlddisgyblaethol a radiolegol ar sail canser yr ysgyfaint ac mae croeso ichi gymryd rhan yn y cyfarfod addysgol adrannol wythnosol.

Ymgymerir â rhestrau llawdriniaethau ddwywaith yr wythnos y gallwch fynychu eu harlwy a dysgu am hanfodion broncosgopi ymyriadol (gan gynnwys EBUS a mewnosod falf endobronciol), thoracosgopi a rheoli draeniau'r frest / cathetrau pliwrol.

Drwy ystod y flwyddyn byddwch yn treulio: tri diwrnod yr wythnos yn gweithio fel aelod o'r timau clinigol; diwrnod yr wythnos yn cwblhau gradd Meistr drwy Ymchwil (MRes) dan adain Prifysgol Bangor; a diwrnod yr wythnos yn Ysgol Glinigol Gogledd Cymru (NWCS).

Er mwyn cwblhau'r flwyddyn mae angen i chi gyflawni'r un cymwyseddau FY2 yn union â'ch cydweithwyr clinigol llawn-amser.

Mae'r wybodaeth yn y ddogfen hon yn seiliedig ar brofiad un o'r hyfforddeion presennol ar ddiwedd ei flwyddyn academaidd FY2.

GWYBODAETH ALLWEDDOL

Dyddiau Clinigol

Tri diwrnod yr wythnos. Fel arfer—dydd Mercher, dydd Iau a dydd Gwener ond yn agored i drafodaeth gydag ysgrifenyddion / goruchwylwyr / timau. Mae angen i chi fynychu'r sesiynau addysgu FY2 rhwng 2-3pm ar bnawniau Mercher. Cadwch hyn mewn cof pan ar leoliad Ymarfer Cyffredinol i ddarparu ar gyfer taith 15 munud yn y car i'r ganolfan ÔI-raddedig.

Anadlol (Ward 11)

- 8.45 – 5 pm. Rownd Bwrdd MDT am 8:45 bob bore.
- Dau gofrestrydd arbenigol, un CMT/LAT SHO, dau FY2 (sy'n eich cynnwys chi!) a dau feddyg FY1.
- Mae'r ymgynghorwyr yn gwasanaethu'r ward yn ôl patrwm cylchdro am gyfnod o fis yr un.

- Mae'r tîm yn cael ei gynorthwyo gan nyrs ward cymorth anadlu anfewnwthiol (NIV), ymarferydd Rhoi'r Gorau i Ysmygu a Chydymaith Meddygol. - Ni fydd eich enw ar y rota gan gydlynydd y rota feddygol gan mai aelod uwchrifol fyddwch chi'n dechnegol. Ni fydd gennych unrhyw ymrwymiadau ar alwad ond gallwch ddewis gweithio sifftiau locwm. Sesiwn/cyfarfod addysgu anadlol amser cinio ddydd Llun (ewch hyd yn oed os nad ydych ar y ward ar y diwrnod hwnnw)	
Cyfarfodydd Addysgol:	Rownd Wythnosol y Meddygon Addysgu F2 wythnosol – dyddiau Mercher, 2 – 3pm Cynhadledd glinigol wythnosol – dyddiau Mercher, 1 – 2pm Rownd Wythnosol y Meddygon – dyddiau Gwener, 11:30-12:30 Cyfarfod Rheolaeth Feddygol Misol – ail ddydd Mawrth y mis am 13:00 Addysgu COTE wythnosol ar ddyddiau Llun am 12:00
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Daniel Menzies

Cylchdro - SFP/031 Addysg Feddygol – Hyfforddiant Efelychu
Cyfleoedd i hyfforddeion F2 ymroi i'r rhaglen Hyfforddiant Efelychu yn YGC. Bydd yr agwedd hon ar y swydd yn gysylltiedig â'r tîm yn Ysgol Glinigol Gogledd Cymru gyda chyfleoedd i ymwneud â thraddodi hyfforddiant i fyfyrwyr
meddygol, Cymdeithion Meddygol a staff meddygol a nyrsio eraill.

Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried y newidiadau i gwricwlwm Sylfaen 2021 gyda'r bwriad o wella cyfleoedd o ran hyfforddiant efelychu i'r sawl sy'n ymroi i'r rhaglen.

Arbenigedd	**Pediatreg Gymunedol**
Rhaglenni:	**SFP/031**

Disgrifiad o'r Lleoliad
Mae gan y gwasanaeth pediatreg cymunedol chwe aelod o staff parhaol WTE yn y Rhyl a Bae Colwyn. Rydym yn rhoi cynhaliaeth i lawer o'n pobl ifanc mwyaf agored i niwed a'u teuluoedd – gan gynnwys y rhai sy'n mynychu ein hysgolion arbennig (y mae gan nifer ohonynt niwroanableddau cymhleth e.e. Sbectrwm Awtistig, Parlys yr Ymennydd, Syndrom Down). Rydym yn cynorthwyo pobl ifanc sydd mewn gofal: Plant sy'n Derbyn Gofal (LAC) neu sydd yn y broses o gael eu mabwysiadu. Mae gennym ni rolau arbennig ym maes diogelu plant: cwblhau profion meddygol amddiffyn plant tra hefyd yn cynorthwyo gweithwyr iechyd proffesiynol gydag achosion diogelu cymhleth. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda gweithwyr cymdeithasol a gwasanaethau plant i sicrhau'n bod yn diwallu anghenion iechyd pobl ifanc sydd mewn gofal. Mae gennym berthnasau arbennig o gryf gyda'r byd addysg ac ysgolion, gan sicrhau bod pobl ifanc yn cael y cymorth a'r gynhaliaeth briodol i wireddu eu potensial addysgol. Rydym hefyd yn cynorthwyo plant ag anghenion ymataliaeth arbenigol.

Bydd cyfnod cynefino cynhwysfawr, chwe wythnos o hyd, yn cael ei gynnig i feddygon FY2 – bydd hyn yn cynnwys cydeistedd mewn amrywiaeth o'n clinigau a chlinigau ysgol arbenigol. Bydd cyfle i arsylwi ar gynhadledd achos amddiffyn plant, ac os yw'n briodol, arsylwi ar banel maethu neu fabwysiadu. Bydd hyfforddeion yn treulio amser yn ein Canolfan Datblygiad Plant, gan gynnwys arsylwi ar sesiynau yn yr ystafell ddosbarth / asesiadau ar y cyd â'r therapyddion lleferydd / tîm nyrsio arbenigol y blynyddoedd cynnar. Bydd yr hyfforddeion oll yn treulio hanner diwrnod / diwrnod yr un gydag amrywiaeth o therapyddion, gan gynnwys: therapydd lleferydd, therapydd galwedigaethol, *Portage*, nyrs ysgol, ymwelydd iechyd, deietegydd pediatrig, ffisiotherapydd. Byddant yn treulio amser gyda'r tîm niwroddatblygiadol ac yn cael y cyfle i ddilyn asesiad niwroddatblygiadol ac arsylwi ar eu tîm amlddisgyblaethol.

Yn ystod y chwe wythnos dilynol, bydd hyfforddeion yn cael y cyfle i weithio ochr yn ochr mewn clinigau gydag aelodau parhaol o'r tîm. Bydd modd iddynt nodi hanes meddygol, archwilio plant a datblygu a chyflwyno cynlluniau rheolaeth glinigol dan oruchwyliaeth briodol. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i hyfforddeion ddatblygu sgiliau clinig ochr yn ochr â llunio llythyrau clinig a chynlluniau rheoli.	
Cyfarfodydd Addysgol:	Cyfarfod wythnosol gyda goruchwyliwr dynodedig Wythnosol - cyfarfod addysgol amser cinio drwy gyfrwng *Zoom* Addysgu F2 wythnosol – dyddiau Mercher, 2 – 3pm
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Hamilton Grantham

Arbenigedd	**Seiciatreg Gyffredinol**
Rhaglenni:	**SFP/031**

Disgrifiad o'r lleoliad

Mae'r swydd yn gysylltiedig â Thîm Iechyd Meddwl Cymunedol (TIMC) Hafod, sy'n darparu gofal iechyd meddwl i oedolion yng ngogledd Sir Ddinbych. Mae gwelyau cleifion mewnol ar gyfer y boblogaeth yn Uned Ablett Ysbyty Glan Clwyd. Mae'r Uned yn darparu gwelyau cleifion mewnol i oedolion a phobl hŷn a gwelyau adsefydlu ar gyfer dalgylch Conwy a Sir Ddinbych ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Y math o waith i'w ragddisgwyl a chyfleoedd dysgu

Bydd yr F2 wedi'i benodi'n rhan o Hafod sef TIMC yn y Rhyl. Mae Hafod yn darparu gwasanaeth iechyd meddwl cymunedol sylfaenol ac eilaidd i ogledd Sir Ddinbych. Bydd deiliad y swydd yn ymdrin â chleifion mewn clinig dan oruchwyliaeth seiciatrydd ymgynghorol.

Mae cyfleoedd ar gael i dreulio amser yn ymwneud ag is-arbenigeddau seiciatrig gan gynnwys SMS, fforensig, OPMH, LD a CAMHS.

Bydd deiliad y swydd yn ymroi i rota ar alwad yn uned Ablett, yn darparu gofal meddygol i'r wardiau seiciatrig gan gynnwys wardiau oddi ar y safle ym Mae Colwyn a Rhuthun.

Amcanion addysgol cyffredinol y flwyddyn F2 yw arfogi hyfforddeion â'r wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau i allu arfer y canlynol:

Nodi hanes seiciatrig llawn ac archwilio cleifion.

Cynnal Archwiliad Cyflwr Meddyliol llawn.

Datblygu sgiliau o ran cynnal archwiliadau Gwybyddol. Dynodi problemau ac ymateb yn weithredol iddynt. Nodi amrywiol ymgyflwyniadau gwahaniaethol ym maes gofal acíwt. Dynodi deliriwm a chynnal diagnosis gwahaniaethol. Rheoli a thrin ymddygiadau treisgar ac ymosodol dan oruchwyliaeth. Cadw cofnodion cywir a pherthnasol. Gweithredu camau dilynol ac ymateb yn weithredol i ymchwiliadau perthnasol. Llunio diagnosis seiciatrig. Cyrchu gwybodaeth ategol/cyfnerthol. Cynnal asesiadau risg. Gweithredu fel dirprwy enwebedig at ddibenion y Ddeddf Iechyd Meddwl. Meithrin gwybodaeth ymarferol am y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol. Defnyddio tystiolaeth a chanllawiau i lunio cynlluniau rheoli priodol. Cyfathrebu'n effeithiol gyda chydweithwyr, cleifion a pherthnasau. Gweithredu mewn modd proffesiynol. Ymdopi â materion moesegol a chyfreithiol sy'n codi yn ystod diwrnod gwaith. Ymofyn cymorth a chyngor mewn modd amserol. Meithrin gwybodaeth ymarferol am systemau gofal acíwt ym maes Iechyd Meddwl.	
Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F2 wythnosol – dyddiau Mercher, 2 – 3pm Addysgu Seiciatrig wythnosol – dyddiau Llun, 2 – 5pm
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Stuart Porter

Arbenigedd	**Obstetreg a Gynecoleg**
Rhaglenni:	**SFP/031**
Band	I'W GADARNHAU
Disgrifiad o'r Lleoliad	

Byddwch yn gweithio fel rhan o dîm o feddygon ymgynghorol ym maes obstetreg a gynaecoleg ynghyd â meddygon SAS, Cymrodyr Clinigol (SHO), Meddygon dan Hyfforddiant Arbenigol (ST), bydwragedd a nyrsys gynaecoleg. Bydd disgwyl i chi wasanaethu fel yr ymatebwr cyntaf ar alwad gyda chymorth SHO a Chofrestryddion ym maes obstetreg; wardiau cynenedigol, ystafelloedd geni a wardiau gynaecoleg. Byddwch yn cael y cyfle i gynorthwyo yn ystod gweithdrefnau toriad Cesaraidd a llawdriniaethau gynaecolegol. Byddwch yn cael eich cynorthwyo i fynychu clinigau gynaecoleg cyffredinol a chlinigau arbenigol. Byddwch yn gweithio yn yr uned asesu obstetreg mamolaeth (MOAU) dan oruchwyliaeth y cofrestrydd neu'r ymgynghorydd ar ddyletswydd. Gallwch wasanaethu fel yr ymatebwr cyntaf ar alwad y tu allan i oriau ac yn ystod sifftiau nos.	
Cyfarfodydd Addysgol:	1. Addysgu F2 wythnosol, dydd Mercher, 2 – 3pm. 2. Addysgu Wythnosol ar ddydd Gwener (meddygon iau ac ymgynghorwyr) 1 – 2 pm. (Cyfarfod misol (unwaith y mis) dilynol rhwng y meddygon iau a'r arweinydd addysgol) 3. Trydydd dydd Gwener y mis, Cyfarfod Amenedigol (PNM); 2 – 4pm. 4. Trydydd dydd Gwener y mis, Cyfarfod Afiachedd a Marwoldeb Gynaecoleg (GMM). 5. Mae'r cyfarfodydd PNM / GMM yn cael eu cynnal bob yn ail fis, bob mis. Cyfarfodydd Llywodraethu Clinigol 6. Cyfarfodydd Oncoleg Gynaecoleg; dyddiau Llun, 2 – 4pm. Ceir mynychu fel sylwedyddion.
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Mr Uchenna Umeadi